Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru

## Gwerth Gwaith Ieuenctid

Gorffennaf 2018



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Llywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cynnwys | Tudalen


**Cyflwyniad** **1**

**Cefndir** **1**

**Prif ganfyddiadau** **3**

**Argymhellion** **6**

**Lle gwaith ieuenctid mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid** **7**

Safbwyntiau presennol 7
Beth yw gwaith ieuenctid? 9
Beth yw gwasanaethau cymorth ieuenctid? 10

**Arfarniad o'r ddarpariaeth bresennol** **13**

Gweledigaeth ar gyfer gwaith ieuenctid, a dealltwriaeth ohono 13
Dirywiad yn amrywiaeth y gwasanaethau cymorth ieuenctid 14
Gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol 16
Y sector gwirfoddol a'r trydydd sector 16
Gwaith ieuenctid mewn lleoliadau addysg ffurfiol 17
Defnyddio'r Gymraeg yn y gwasanaethau cymorth ieuenctid 19

**Cynllunio ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid** **22**

Diffyg cyfeiriad strategol 22
Cynllunio lleol 23
Cyllid ac adnoddau 25
Ymgynghori a chyfranogiad: rôl pobl ifanc mewn cynllunio gwasanaethau 26
Cynllunio hyfforddiant gweithwyr ieuenctid 27

**Sicrwydd ansawdd ac atebolrwydd** **29**

**Atodiad 1: Yr hanes, y meddwl a'r ddeddfwriaeth y tu ôl i'r ddarpariaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid yng Nghymru** **31**

Rhesymwaith ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc 31
Deddfwriaeth a pholisi yn ymwneud â gwasanaethau cymorth ieuenctid 31
Deddfwriaeth a pholisi ehangach 33
Cyllid 35

**Atodiad 2: Data demograffig ar gyfer pobl ifanc** **37**

**Atodiad 3: Arolwg o Wasanaethau cymorth ieuenctid ar gyfer pobl ifanc** **39**

**Sail y dystiolaeth** 41

**Geirfa** 43

**Cyfeiriadau** 48

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymateb i gais yn llythyr cylch gwaith blynyddol Ysgrifennydd y Cabinet i Estyn ar gyfer 2017-2018, lle gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn gynnal arolwg o wasanaethau ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.

Mae hefyd yn rhan o waith thematig ehangach a wneir ar y cyd gan Arolygu Cymru. Bydd pob corff arolygu, archwilio a rheoleiddio yng Nghymru yn adrodd ar y cymorth sy'n cael ei roi i bobl ifanc o wasanaethau gwahanol. Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn adrodd ar drefniadau i gefnogi'r pontio rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion. Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd gwasanaethau a threfniadau awdurdodau lleol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio ymagwedd strategol Llywodraeth Cymru at wella lles pobl ifanc 16-24 oed gyda'r bwriad o nodi gwersi allweddol i'r dyfodol.

Mae Estyn yn arolygu gwasanaethau i bobl ifanc o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ac mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar wasanaethau cymorth ieuenctid. Yn benodol, mae'n edrych ar y cyfraniad a wna methodoleg gwaith ieuenctid at ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid.

Mae'r adroddiad yn amlinellu ansawdd gwasanaethau cymorth ieuenctid i bobl ifanc yn erbyn cefndir o flaenoriaethau deddfwriaeth a pholisi amrywiol. Mae'n tynnu sylw at yr heriau i reolwyr o drefnu eu gwasanaethau, mewn cyd-destun o ideolegau cystadleuol yn gysylltiedig â'r diben a'r modelau ar gyfer y gwasanaethau hynny. Mae'r adroddiad yn ceisio esbonio diffiniadau gwaith ieuenctid, gwasanaethau ieuenctid, a gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae'n rhoi enghreifftiau o arfer dda wrth weithio gyda phobl ifanc.

Oni nodir yn wahanol, mae'r dyfyniadau trwy gydol yr adroddiad yn ddyfyniadau gan bobl ifanc a ymatebodd yn ddienw i arolwg ar-lein Estyn yn 2017.

## Cefndir

Darperir y sail ddeddfwriaethol ar gyfer gwaith ieuenctid ac, yn ddiweddarach, gwasanaethau cymorth ieuenctid, drwy ddeddfwriaeth addysg, gan ddechrau gyda Deddf Addysg 1944 (Prydain Fawr, 1944). Mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (Prydain Fawr, 2000) ac Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru, Cyfarwyddyd a Chanllawiau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002) yn ffurfio'r sail ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru. Rhestrir yn fanwl y ddeddfwriaeth a pholisïau sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid, y gwasanaeth ieuenctid, a gwasanaethau cymorth ieuenctid yn atodiad 1.

Mae 'gwasanaethau cymorth ieuenctid' yn wasanaethau addysgol, wedi'u diffinio o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, ac yn cael eu hariannu gan arian cyhoeddus

uniongyrchol neu anuniongyrchol. Maent yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill fel ysgolion a sefydliadau'r sector gwirfoddol.

Mae 'gwaith ieuenctid' yn fethodoleg gydnabyddedig ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc, yn seiliedig ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, cymwysterau proffesiynol rheoleiddiedig, ac mae iddi sylfaen foesegol ddiffiniedig. Mae gwaith ieuenctid yn adeiladu ar sefydlu perthnasoedd gweithio da gyda phobl ifanc lle caiff eu hanghenion eu rhoi yn gyntaf, ni waeth p'un a yw'r cysylltiadau â phobl ifanc yn rhai gwirfoddol neu orfodol. Y diffiniad o bobl ifanc yw'r rheini sydd rhwng 11 a 25 oed.

Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-2018 yn datgan y canlynol: *"Cynigir darpariaeth gwaith ieuenctid drwy wasanaethau ieuenctid. Mae gwaith ieuenctid yn rhan annatod o wasanaethau cymorth ieuenctid sy'n ceisio sicrhau bod pob person ifanc rhwng 11 a 25 oed yn cael y gwasanaethau, y cymorth a'r profiadau sydd eu hangen arnynt er mwyn cyflawni eu potensial. Yng Nghymru, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn hawl sylfaenol, sy'n agored i bob person ifanc. Drwy Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 123, mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid, sicrhau eu bod yn cael eu darparu neu gymryd rhan yn y gwaith o'u darparu"* (Llywodraeth Cymru, 2014a, tud.4).

Yn 2016, comisiynodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymchwiliad i waith ieuenctid. Canfu adroddiad yr ymchwiliad 'Pa fath o wasanaeth ieuenctid y mae Cymru ei eisiau?' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2016) wendidau yn ymagwedd strategol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys disgwyliadau afrealistig a diffyg ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Cododd yr ymchwiliad bryderon ynghylch y cyllid ac effaith llai o adnoddau ar ddarpariaeth ieuenctid ledled Cymru, a sut gallai hyn effeithio ar grwpiau penodol o bobl ifanc, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. Gwnaeth adroddiad y Pwyllgor 10 o argymhellion ar gyfer gwella yn ymwneud ag ymgysylltiad, mapio darpariaeth ieuenctid ledled Cymru, cyllid ac adolygu'r strategaeth genedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid.

Ym Mawrth 2018, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ddatganiad ysgrifenedig 'Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Symud ymlaen gyda'n gilydd' (Llywodraeth Cymru, 2018e), a adnewyddodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob unigolyn ifanc yn cael cymorth i oresgyn rhwystrau rhag cyflawni eu potensial llawn. Cydnabu'r Gweinidog bwysigrwydd gwaith ieuenctid ansawdd uchel, drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, i gefnogi'r nod hwn

Mae grŵp cyfeirio gwaith ieuenctid yn cyfarfod yn rheolaidd i gefnogi datblygu cyfeiriad strategol newydd ar gyfer gwaith ieuenctid, ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n sefydlu bwrdd gwaith ieuenctid interim, a fydd yn datblygu ac yn goruchwylio polisi gwaith ieuenctid.

# Prif ganfyddiadau

1 Mae gan bob unigolyn ifanc hawl i gymorth ansawdd uchel trwy waith ieuenctid. Mae angen mynediad i weithgareddau y tu allan i addysg ffurfiol arnynt, mewn amgylcheddau diogel, sy'n rhoi cyfleoedd newydd iddynt, yn eu helpu i ffurfio perthnasoedd newydd, meithrin cyfeillgarwch, a dysgu medrau newydd. O dro i dro, bydd angen cymorth arnynt hefyd sy'n eu helpu i ddeall eu dewisiadau bywyd ac i wneud penderfyniadau pwysig. Yng Nghymru, gweithwyr ieuenctid proffesiynol sy'n darparu'r cymorth hwn yn draddodiadol.

2 Mae'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed a mwyaf ymylol yn wynebu anawsterau niferus yn ogystal, gan gynnwys tlodi, cam-drin domestig, camfanteisio rhywiol, anawsterau dysgu, camddefnyddio sylweddau, materion iechyd meddwl, a digartrefedd. Mae helpu'r bobl ifanc hyn yn parhau yn her foesol fawr i gymdeithas. Y cymorth ar gyfer y bobl ifanc hyn sy'n fwyaf llwyddiannus yn y tymor hir yw ymgysylltiad â gweithwyr ieuenctid sydd wedi'u hyfforddi'n dda, sy'n treulio amser i feithrin perthynas o ymddiriedaeth gyda nhw. Wedyn, gallant feithrin datblygiad personol y bobl ifanc hyn, meithrin eu hyder a'u gwydnwch, a datblygu'u medrau cymdeithasol, fel eu bod yn fwy tebygol o wneud penderfyniadau bywyd gwell, a maes o law, ail-ymgysylltu â rhaglenni dysgu. Mae angen i'r cymorth hynny fod yn hyblyg ac anfeirniadol.

3 Mae llawer o wasanaethau cymorth ieuenctid amrywiol ac effeithiol i'w cael i bobl ifanc yng Nghymru, a ategir gan ystod eang o ddeddfwriaeth a pholisi, yn deillio o Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, a'r Comisiwn Ewropeaidd. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaethau hyn ar gael i bob unigolyn ifanc. Nid oes strategaeth gyffredinol ar gyfer cynllunio, darparu neu ariannu gwasanaethau, ac nid oes un weledigaeth glir, a rennir, gan lunwyr polisi a darparwyr ar gyfer cyflwyno gwasanaethau, na'r modd y mae gwaith ieuenctid yn cyfrannu at ddatblygiad personol pobl ifanc a'u rôl yn y gymuned a'r gymdeithas ehangach.

4 Mae'r math o wasanaethau cymorth ieuenctid sy'n cael eu darparu yng Nghymru wedi newid ers cyhoeddi cyfarwyddyd a chanllawiau Ymestyn Hawliau (Llywodraeth Cymru, 2002). Am amrywiaeth o resymau, bu dirywiad o ran y ddarpariaeth ieuenctid draddodiadol mynediad agored sydd ar gael, a gwaith yn y gymuned a gwaith ar y stryd. Mewn rhai achosion, mae elusennau trydydd sector wedi disodli awdurdodau lleol o ran darparu'r math hwn o ddarpariaeth. Bu cynnydd cyfatebol mewn gwaith ymyrryd 'cywirol', targedig, yn seiliedig ar atgyfeiriadau, gyda phobl ifanc. Mae'r cynnydd hwn wedi arwain at ddarnio gwasanaethau, gyda phobl ifanc yn cael eu hatgyfeirio at nifer o wasanaethau ymyrryd gwahanol. Nid oes gan lawer o bobl ifanc a fyddai'n elwa o wasanaethau fynediad agored at gymorth mwyach.

5 Mynychir darpariaeth ieuenctid mynediad agored gan bobl ifanc yn wirfoddol, ac fel arfer fe'i darperir yn y gymdogaeth. Yn flaenorol, roedd y gwasanaethau hyn yn seiliedig ar anghenion wedi'u pennu gan y bobl ifanc eu hunain. Mae llawer o'r gwasanaethau a ddarperir yn awr yn canolbwyntio ar unigolion neu grwpiau er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion penodol sydd wedi'u nodi gan bobl eraill, er mwyn bodloni agendâu polisi cenedlaethol, yn hytrach nag ar anghenion wedi'u nodi gan

bobl ifanc eu hunain. Mae'r mwyafrif o'r gwasanaethau hyn ar gyfer y grŵp oed o dan 18. Mae'r gwaith targedig hwn yn fwyaf effeithiol lle mai ymarfer gwaith ieuenctid yw'r model pennaf a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol.

6 Er ei bod yn synhwyrol i adnoddau prin gael eu defnyddio i gynorthwyo'r rhai sydd fwyaf agored i niwed, mae'r polisi o gael ymyriadau mwy 'targedig' wedi arwain at ganlyniad anfwriadol lle mae llawer o'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn methu cael y cymorth sydd ei angen arnynt, am nad ydynt yn aml wedi ymgysylltu â'r gwasanaethau sy'n gallu'u hatgyfeirio.

7 Mae egwyddorion craidd Ymestyn Hawliau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002) yn berthnasol o hyd. Fodd bynnag, ers Ymestyn Hawliau, nid yw'r nifer fawr o ddatblygiadau polisi newydd wedi rhoi digon o ystyriaeth i hawliadau a hawliau pob unigolyn ifanc i gael gwasanaethau. Mae'r amrywiaeth eang o flaenoriaethau a gyflwynwyd gan y datblygiadau polisi hyn wedi gwanhau gallu awdurdodau lleol a darparwyr eraill gwasanaethau cymorth ieuenctid, gan gynnwys y sector gwirfoddol, i gynllunio a darparu gwasanaethau yn effeithlon ac ar y cyd. Ar hyn o bryd, nid oes model integredig ar gyfer cynllunio gwasanaethau sy'n adeiladu ar y ddarpariaeth yn y sector cyfan. Mae deddfwriaeth ddiweddar sy'n effeithio ar awdurdodau lleol wedi arwain at chwalu partneriaethau ffurfiol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau cymorth ieuenctid.

8 Mae toriadau mewn adnoddau wedi effeithio hefyd ar alluoedd awdurdodau lleol i gynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio dulliau gwahanol o gynllunio a darparu gwasanaethau, ond nid yw egwyddorion craidd Ymestyn Hawliau, sef y dylai cynllunio ganolbwyntio ar anghenion penodol pobl ifanc ac y dylai pobl ifanc helpu i bennu'r anghenion hynny, yn sail i lawer o'r ddarpariaeth mwyach. Gwneir sicrhau ffocws ar anghenion pobl ifanc yn anoddach pan fydd cyllid wedi'i glymu'n dynn wrth ddeilliannau caled, fel cymwysterau cydnabyddedig. Mae'r deilliannau penodedig hyn yn ei gwneud hi'n anodd i weithwyr ieuenctid sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed, y mae angen cymorth personol sylweddol arnynt cyn y gallant ddechrau ar raglenni dysgu. Er hynny, yn y rhan fwyaf o ardaloedd, mae gweithwyr ieuenctid yng ngwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol a lleoliadau'r sector gwirfoddol wedi dangos gwydnwch a'r gallu i addasu, a chymhwyso egwyddorion craidd gwaith ieuenctid mewn amrywiaeth o leoliadau.

9 Mae'r ystod eang o wasanaethau cymorth ieuenctid sydd ar gael i bobl ifanc wedi'i datblygu'n aml ar sail adweithiol, ac nid yw cynlluniau lleol yn sicrhau bod cydraddoldeb mynediad i wasanaethau mynediad agored na gwasanaethau targedig. Mae hyn yn effeithio'n arbennig ar bobl ifanc sy'n byw gerllaw ffiniau awdurdod lleol, lle mae'r cynllunio rhwng awdurdodau yn wan. Hefyd, ceir diffyg cydraddoldeb o ran darpariaeth gwasanaethau ar draws yr ystod oedran llawn o 11 i 25.

10 Mae'r sector gwirfoddol yn chwarae rhan hanfodol i ddarparu pob math o wasanaethau cymorth ieuenctid, ond nid yw wedi'i gynnwys yn ddigonol gan lywodraeth leol mewn prosesau cynllunio. Ceir gweithio mewn partneriaeth anffurfiol da, a rhagorol yn aml, ar lefelau lleol, ond yn aml caiff darpariaeth ei datblygu mewn modd ad hoc, ar sail cyllid sydd ar gael a chysylltiadau sydd wedi'u sefydlu. Erbyn hyn, mae llai o ganolfannau mynediad agored awdurdodau lleol lle ceir gwaith

ieuenctid traddodiadol. Y sector gwirfoddol sy'n cyflawni llawer o'r gwaith hwn bellach.

11 Mae mecanweithiau cenedlaethol a lleol ar waith ar gyfer ymgynghori â phobl ifanc, ond nid yw'n eglur pa mor dda y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at gynllunio ac arfarnu gwasanaethau sy'n effeithio ar bobl ifanc.

12 Ceir diffyg eglurder ymhlith darparwyr gwasanaeth a llunwyr polisi ynglŷn â'r derminoleg a ddefnyddir wrth drafod gwasanaethau i gynorthwyo pobl ifanc. Mae'r term 'gwaith ieuenctid' yn cael ei ddrysu'n aml â 'gwaith gyda phobl ifanc'. Mae hyn yn arwain at ideolegau a blaenoriaethau sy'n gwrthdaro, ac nid yw hyn yn helpu cefnogi datblygu polisi. Er enghraifft, mae gwaith ieuenctid yn cyfeirio at fethodoleg broffesiynol ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc. Mae'n seiliedig ar set glir o werthoedd a ategir gan natur wirfoddol y berthynas rhwng yr unigolyn ifanc a'r gweithiwr ieuenctid, ond yn aml, ceir dryswch rhwng hyn â'r lleoliadau lle caiff ei ddarparu. Caiff ei gymysgu hefyd â gwaith cyffredinol gyda phobl ifanc hyd yn oed pan na fydd unrhyw agwedd gefnogol neu addysgol.

13 Mae gwaith ieuenctid yn ffordd broffesiynol, fedrus o weithio sy'n gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygu pobl ifanc fel unigolion, ac i gefnogi datblygu'u medrau cymdeithasol. Mae gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn fwy sefydledig erbyn hyn, mae'n cael ei ddeall yn well, a'i werthfawrogi'n gynyddol gan ddarparwyr 'addysg ffurfiol'. Mae mynediad at weithiwr ieuenctid yn aml yn chwarae rhan allweddol i gynorthwyo pobl ifanc sydd â rhwystrau niferus rhag dysgu. Mae pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau, ond mae mynediad at weithiwr ieuenctid wedi'i dargedu yn aml, ac felly nid yw ar gael i bob unigolyn ifanc bob tro. Nid oes gymaint o waith ieuenctid yn cael ei wneud mewn colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith.

14 Nid yw cyfraniad pwysig cynllunio ar gyfer datblygu'r proffesiwn gwaith ieuenctid, a phwysigrwydd cymhwyster priodol a hyfforddiant mewn swydd gweithwyr ieuenctid, wedi'i gynnwys yn y strategaeth genedlaethol bresennol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru,

15 Nid oes strategaeth effeithiol i sicrhau y caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid. Fel arfer, mae darpariaeth mynediad agored yn Gymraeg yn cael ei darparu gan y sector gwirfoddol, ond ychydig o wasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog sydd i'w cael, ac yn arbennig, ceir diffyg gwasanaethau cymorth arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg.

16 Mae'r modd y caiff gwasanaethau cymorth ieuenctid eu dwyn i gyfrif am y gwaith a wnânt yn aneglur. I'r rheini sy'n darparu cyllid grant y mae'r prif atebolrwydd. Mae cyflwyno'r Marc Safon ar gyfer gwaith ieuenctid wedi dod ag agweddau cadarnhaol a chefnogol i'r broses o sicrhau ansawdd gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, ac ychydig o wasanaethau cymorth ieuenctid. Fodd bynnag, nid yw'n eglur sut y caiff hawliau pobl ifanc a gynhwyswyd yn Ymestyn Hawliau eu cyflawni, ac nid yw effaith y gwasanaethau ar bobl ifanc wedi'i harfarnu'n dda.

# Argymhellion

**Dylai awdurdodau lleol:**

A1 Ymgynghori'n ystyrlon gyda phobl ifanc, fel eu bod yn gallu dylanwadu ar gynllunio ar gyfer gwasanaethau sydd ar gael iddynt ar lefel leol, a'u harfarnu

A2 Darparu mannau diogel i bobl ifanc mewn ardaloedd lleol fel bod ganddynt fynediad at wasanaethau, a gweithgareddau, sy'n cynorthwyo'u datblygiad fel unigolion, ac fel aelodau o'u cymuned leol

A3 Gwneud yn siŵr bod cynlluniau strategol yn cynnwys blaenoriaethau clir wedi'u llywio gan wybodaeth leol ar gyfer gwasanaethau sy'n cynorthwyo pobl ifanc

A4 Gwneud yn siŵr bod adrannau awdurdod lleol a chyrff eraill yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc, sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion

**Dylai darparwyr:**

A5 Wneud yn siŵr bod eu gwasanaethau yn galluogi pobl ifanc i nodi drostyn nhw eu hunain beth yw eu diddordebau, eu nodau, a'u hanghenion

A6 Gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol a rhanbarthol i wella mynediad at yr ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ifanc

A7 Gwneud yn siŵr bod safonau ac egwyddorion gwaith ieuenctid proffesiynol yn cael eu defnyddio gan weithwyr yn yr holl brosiectau gwasanaeth cymorth ieuenctid

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A8 Ddarparu'r sylfaen polisi ar gyfer ymgorffori gwaith ieuenctid, fel ffordd o weithio gyda phobl ifanc, yn yr holl wasanaethau

A9 Egluro'r defnydd o'r derminoleg 'gwaith ieuenctid', 'gwasanaeth ieuenctid', a 'gwasanaethau cymorth ieuenctid' yng Nghymru er mwyn darparu iaith a ddeellir yn gyffredinol ar gyfer datblygu a chyflawni polisi

A10 Sefydlu ffyrdd o ddwyn awdurdodau lleol a'u partneriaid i gyfrif am ansawdd, ystod a'r mathau o wasanaethau cymorth ieuenctid a ddarparant yn eu hardal

A11 Cynnwys cymhwyster, hyfforddiant a datblygiad parhaus gweithwyr ieuenctid yn Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru

## Lle gwaith ieuenctid mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid

**‘Fyddwn i ddim yma heddiw heb gymorth yr holl wasanaethau gwahanol ar gyfer pobl ifanc’**

### Safbwyntiau presennol

17 Yn sgil Cynulliad Cymru’n mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn, a’i ganllawiau statudol Ymestyn Hawliau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002), mae hawl gan bob unigolyn ifanc yng Nghymru gael mynediad at wasanaethau cymorth ieuenctid. Mae’r gwasanaethau hyn yn darparu gweithgareddau a chyfleoedd i bobl ifanc; maent yn eu herio a’u cefnogi, yn eu cyflwyno i brofiadau newydd mewn amgylchedd diogel, ac yn eu helpu i ffurfio perthnasoedd, meithrin cyfeillgarwch a dysgu medrau newydd.

18 Mae’r bobl ifanc mwyaf agored i niwed a mwyaf ymylol yng Nghymru yn wynebu anawsterau niferus yn ogystal, gan gynnwys tlodi, arwahanrwydd, cam-drin domestig, camfanteisio rhywiol, anawsterau dysgu, camddefnyddio sylweddau, materion iechyd meddwl, a digartrefedd. Mae helpu’r bobl ifanc hyn yn rheidrwydd moesol i gymdeithas gyfiawn a gofalgar. Hefyd, o dro i dro, mae angen i bobl ifanc i gyd, beth bynnag yw eu hamgylchiadau cymdeithasol, gael cymorth sy’n eu galluogi i ddeall eu dewisiadau a gwneud penderfyniadau bywyd pwysig. Yng Nghymru, gweithwyr ieuenctid proffesiynol sy’n darparu’r cymorth hwn yn draddodiadol.

19 Mae llawer o wasanaethau cymorth ieuenctid amrywiol ac effeithiol i’w cael i bobl ifanc yng Nghymru, a ategir gan ystod eang o ddeddfwriaeth a pholisi. Gwelir y sail ddeddfwriaethol ar gyfer gwaith ieuenctid ac, yn ddiweddarach, gwasanaethau cymorth ieuenctid, mewn deddfwriaeth addysg, gan ddechrau gyda Deddf Addysg 1944 (Prydain Fawr, 1944). Mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (Prydain Fawr, 2000) ac Ymestyn Hawliau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002) yn ffurfio’r sail ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw’r gwasanaethau hyn ar gael ym mhob ardal neu i’r holl bobl ifanc sydd eu hangen.

20 Mae’r diffiniad ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid yn y Ddeddf Dysgu a Sgiliau (Prydain Fawr, 2000) yn fwriadol eang, a chynhwysol, ac felly mae’n cwmpasu, er enghraifft, darpariaeth ieuenctid mynediad agored yn y gymdogaeth, clybiau ieuenctid, gwaith allgymorth, darpariaeth ar y stryd, gweithgareddau antur awyr agored, prosiectau celf a diwylliannol, ac ymweliadau cyfnewid rhyngwladol. Mae hefyd yn cynnwys prosiectau ieuenctid â mwy o ffocws, fel gwaith ieuenctid mewn ysgolion, cyngor, arweiniad a chwnsela, a phrosiectau ymyrryd yn seiliedig ar atgyfeiriadau, fel cymorth digartrefedd, cymorth cyflogaeth, rhaglenni i wella mynediad at addysg a hyfforddiant, gwaith ieuenctid mewn ysbytai, a gwaith ieuenctid mewn lleoliadau cyfiawnder ieuenctid. Darperir yr holl wasanaethau hyn gan weithlu sy’n ymroddedig i gynorthwyo pobl ifanc hyd eithaf eu gallu.

21 Un nodwedd bwysig o’r gwasanaethau hyn yw eu cefnogaeth i’r broses addysg bersonol a chymdeithasol, pan fydd pobl ifanc yn datblygu’u galluoedd cymdeithasol ac emosiynol, gan gynnwys penderfyniad, hunanreolaeth, hyder, dyfalbarhad, a hunangymhelliant. Mae’r galluoedd hyn yn bwysig ynddyn nhw eu hunain ac oherwydd eu pwysigrwydd o ran cyflawni deilliannau eraill fel cyflawniad addysgol a chyflogaeth gynaliadwy a boddhaus. Mewn geiriau eraill, drwy’r gwasanaethau cymorth ieuenctid hyn, mae gweithwyr ieuenctid a gweithwyr proffesiynol eraill yn gweithio gyda phobl ifanc i gyflawni newid personol yn eu bywydau, a gall hynny ei hun arwain at newid yn eu hamgylchiadau. I leiafrif o bobl ifanc, gall y gwasanaethau hyn weithredu fel cymorth hanfodol a newid bywyd.

**Astudiaeth achos 1: Gwaith effeithiol gyda phobl ifanc sy’n byw bywydau anhrefnus yn aml, gan elusen tai Llamau**

Mae Llamau yn elusen tai sefydledig, sy’n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae’n arbenigo mewn gweithio gyda phobl ifanc sy’n agored iawn i niwed a heriol yn aml, sydd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Yn aml, mae’r bobl ifanc hyn yn wynebu heriau fel camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig, materion iechyd meddwl, ac anawsterau dysgu.

Mae’r rhaglen hyfforddiant cyn-alwedigaethol ‘Learning 4 Life’ yn cynnig cyfle i bobl ifanc nad ydynt wedi llwyddo mewn addysg yn flaenorol i ymgysylltu â hyfforddiant a gweithgareddau a fydd yn eu paratoi ar gyfer bywyd oedolyn. Mae gweithwyr Llamau yn defnyddio technegau gwaith ieuenctid i nodi rhwystrau niferus sydd gan bobl ifanc rhag dysgu. Yn aml, nid yw graddau llawn y rhwystrau hyn wedi’u hadnabod gan weithwyr proffesiynol eraill. Mae ymyriadau’n fwy effeithiol am fod gweithwyr yn treulio amser i ddod i adnabod pobl ifanc yn dda fel y gellir mynd i’r afael â’u holl anghenion. Mae ymyriadau yn hyblyg ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn ifanc, a rhoddir cymorth targedig ar gyfer yr ystod o faterion a sefyllfaoedd sydd gan bob unigolyn ifanc.

Caiff pobl ifanc eu cyflwyno i fedrau craidd fel llythrennedd, rhifedd a medrau eraill a, lle bo’n addas, mae’r rhain yn arwain at gymwysterau Agored Cymru i’w paratoi i symud ymlaen i addysg y brif ffrwd neu i waith. Mae cyfleoedd neu drefniadau gwirfoddoli estynedig gyda chyflogwyr lleol yn rhoi hyder i bobl ifanc trwy brofiadau gwaith na fyddai’n agored iddynt fel arfer.

Hefyd, mae’r elusen yn defnyddio’i harbenigedd mewn materion tai i gynorthwyo pobl ifanc sydd naill ai’n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Mae’r elusen yn atebol i Lywodraeth Cymru o ran targedau ffurfiol, ac mae storïau pobl ifanc unigol yn brawf o effeithiolrwydd y gwaith. Ymgynghorir yn rheolaidd â phobl ifanc ynglŷn â defnyddioldeb y ddarpariaeth, effaith y rhaglenni a’u profiadau eu hunain o’r cymorth a ddarperir gan Llamau.

22 Mae rheolwyr gwasanaethau cymorth ieuenctid, swyddogion awdurdod lleol, y sector gwirfoddol, a darparwyr y trydydd sector yn parhau i weithio i sicrhau gwasanaethau hollbwysig mewn hinsawdd economaidd anodd, ac ymhlith blaenoriaethau sy'n gwrthdaro. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r gwasanaethau hyn yn deg, gan fod ystod y gwasanaethau, ynghyd â'u dosbarthiad, yn lleihau yn sgil pwysau ar gyllid a blaenoriaethau polisi cystadleuol. Nid yw'r cynllunio ar gyfer ystod, lleoliad, a hygyrchedd gwasanaethau yn cael ei gydlynu'n ddigon da.

### Beth yw gwaith ieuenctid?

**'Rwy'n mynd i'm prosiect ieuenctid bob nos. Rwy'n chwarae pêl-droed, rownders, tennis, rygbi cyffwrdd, yn dysgu coginio, cymorth cyntaf, chwarae Xbox, dartiau a phŵl. Ry'n ni'n mynd ar deithiau a chyfnodau preswyl i ffwrdd o'r prosiect ac yn cael llawer o hwyl. Fe hoffwn i pe bai'r prosiect ieuenctid ar agor yn hirach. Mae staff yn y prosiect bob amser yn barod i helpu ac maent yn gwrando arnom ni. '**

23 Mae gwaith ieuenctid yn ddull medrus o weithio, sy'n helpu pobl ifanc ddysgu amdanynt eu hunain, pobl eraill a'r gymdeithas drwy weithgareddau addysgol ffurfiol ac anffurfiol. Mae'n seiliedig ar set glir o werthoedd a ategir gan natur wirfoddol y berthynas rhwng yr unigolyn ifanc a'r gweithiwr ieuenctid.

24 Mae gweithwyr ieuenctid medrus yn defnyddio ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddod i adnabod anghenion unigolyn ifanc a darparu gweithgareddau a phrofiadau, sy'n eu helpu i dyfu a datblygu. Mae mantais ddeublyg i'r ymagwedd hon. Mae'n cefnogi pobl ifanc gyda'u dyheadau, eu materion personol a rhwystrau, ac yn ehangu gorwelion, tra hefyd yn chwarae rhan bwysig i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i helpu pobl gyrraedd eu potensial. Fel hyn, mae gwaith ieuenctid, fel model ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc, yn cyfrannu at amrywiaeth o strategaethau Llywodraeth Cymru sydd:

- yn lleihau tlodi ac anghydraddoldeb
- yn cynyddu lefelau cyrhaeddiad addysgol
- yn cynyddu nifer y bobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth, a hyfforddiant
- yn gwella lles economaidd a chymdeithasol pobl ifanc
- yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau eraill
- yn cynyddu cyfranogiad pobl ifanc mewn cymdeithas

25 Yn draddodiadol, roedd gwaith ieuenctid yn cael ei wneud mewn canolfannau ieuenctid mynediad agored, prosiectau ieuenctid neu drwy waith allgymorth a gwaith stryd datgysylltiedig, yn cael ei ddarparu gan y sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn dal i ariannu o leiaf un 'canolfan ieuenctid', ond mae adeiladau'n cael eu rhannu gydag asiantaethau eraill yn aml. Mae'r gwaith yn y canolfannau hyn bellach yn cynnwys darpariaeth fwy 'arbenigol' yn aml, sy'n targedu anghenion grwpiau gwahanol. Mae clybiau ieuenctid traddodiadol yn dal i ddiwallu angen gwerthfawr mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru. Y ddarpariaeth amgylchedd hon sy'n annog pobl ifanc i gael cyswllt wyneb-yn-wyneb â phobl eraill, i gymysgu'n gymdeithasol gyda phobl ifanc eraill na fyddent yn cyfarfod â

nhw fel arall o bosibl, ac ymgymryd â gweithgareddau corfforol a fydd yn gwella eu bywydau ac yn cyfrannu at ffitrwydd meddyliol a chorfforol, a chydlyniant cymdeithasol. Fodd bynnag, gall fod angen i'r gweithgareddau a gynhelir mewn clybiau ieuenctid newid er mwyn diwallu'n well anghenion cenedlaethau sy'n rhoi mwy o ffocws ar TG. Erbyn hyn, mae gwaith ieuenctid yn cael ei gynnal mewn ystod eang o brosiectau a lleoliadau yn ychwanegol at waith traddodiadol mewn clybiau ieuenctid.

**'Dim ond unwaith yr wythnos mae fy nghlwb ieuenctid ar agor ac nid yw hynny'n ddigon, ac weithiau mae angen i ni siarad â'r staff yn amlach nag y gallwn.'**

### Beth yw gwasanaethau cymorth ieuenctid?

26 Mae'r rhesymwaith sylfaenol ar gyfer y mathau o wasanaethau cymorth ieuenctid sy'n cael eu hyrwyddo a'u cefnogi yng Nghymru wedi newid ers y Ddeddf Dysgu a Sgiliau (Prydain Fawr, 2000) ac Ymestyn Hawliau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002). Er gwaetha'r pwyslais deddfwriaethol ar hawliau unigol a chyfranogiad pobl ifanc, a'r diffiniad cynhwysol o wasanaethau cymorth ieuenctid, mae cyfeiriad polisi a rheolau ariannu, yn gynyddol, wedi newid o wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion wedi'u pennu gan bobl ifanc eu hunain, i ymyriadau sy'n cael eu penderfynu gan bobl eraill. Mae'r newid ffocws hwn yn tueddu ffafrio modelau darparu gwasanaethau, sy'n golygu ymyriadau byrrach, â ffocws manylach. Mae hyn yn hyrwyddo pwyslais ar ddiffygion a ganfyddir yn allanol ynglŷn â phobl ifanc unigol, eu cyfleoedd bywyd, dewisiadau bywyd, a setiau medrau. Mae llawer o weithwyr ieuenctid yn cael anhawster cysoni'r modelau newyddach hyn â gwaith ieuenctid proffesiynol, sy'n canolbwyntio mwy ar helpu pobl ifanc i nodi eu hanghenion a'u dyheadau eu hunain.

27 Gwelir symud i ffwrdd oddi wrth weithgareddau gwasanaeth ieuenctid traddodiadol, a oedd yn weithgareddau mynediad agored, galw heibio, yn y gymuned yn bennaf. Caiff hyn ei ddisodli'n fwyfwy gan ddarpariaeth wedi'i thargedu, sy'n digwydd o fewn amrywiaeth eang o leoliadau, gan gynnwys addysg ffurfiol, ac yn yr amgylchiadau mwyaf anodd yn aml, a gyda phobl ifanc â'r anghenion mwyaf cymhleth a heriol. Yn aml, mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar unigolion sydd wedyn yn cael eu gosod mewn grwpiau 'artiffisial', fel pobl ifanc sy'n ei chael hi'n anodd ffynnu mewn lleoliadau addysg ffurfiol traddodiadol.

28 Mae ychydig o enghreifftiau o ddarpariaeth sy'n targedu grwpiau neu gymunedau penodol sy'n llwyddo i fynd i'r afael ag anghenion y grwpiau hyn a chefnogi cydlyniant cymunedol. Caiff y gwasanaethau hyn eu darparu gan y sector gwirfoddol neu'r trydydd sector yn gyffredinol, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol yn aml. Fel arfer, mae'r cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn yn cael ei ddarparu trwy bartneriaethau gydag awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru, neu sefydliadau elusennol.

**Astudiaeth achos 2: Prosiect Tîm Cymorth Ieuenctid Lleiafrifoedd Ethnig**

Sefydlwyd y prosiect gwirfoddol hwn yn Abertawe yn 2005 gan grŵp o bobl ifanc lleiafrifoedd ethnig i gynorthwyo pobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig i gyrraedd eu potensial llawn. Erbyn hyn, mae'r gwaith wedi ehangu i Gaerdydd, Casnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin, Powys, a Wrecsam. Gan gael eu hariannu gan nifer o ffrydiau cyllido, mae gweithwyr yn cynorthwyo ffoaduriaid a cheiswyr lloches erbyn hyn hefyd. Mae'r prosiect yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i ddarparu cymorth ar gyfer:

- teuluoedd
- addysg
- cyflogaeth
- iechyd
- diogelwch cymunedol
- gwaith 'Atal'

Mae cymorth ffoaduriaid i deuluoedd sydd newydd gyrraedd yn cynnwys cymorth penodol i blant i integreiddio yn yr ysgol a'r gymuned.

Mae staff a gwirfoddolwyr yn gweithio ar amrywiaeth o brosiectau fel prosiect 'Perthyn / Belonging' Plant mewn Angen i frwydro yn erbyn stereoteipiau negyddol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Mae'r prosiect hwn yn darparu clwb ieuenctid mynediad agored am dair noson yr wythnos. Mae prosiect arall, 'Ieuenctid, ymfudwyr, Cymru', a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, yn archwilio gwahanol storïau am fudo ar gyfer pobl ifanc sy'n gweld eu hunain fel Cymry erbyn hyn. Yng Nghaerdydd, mae'r prosiect yn bwriadu cynyddu gwaith gyda merched ifanc i ddiwallu'u hangen am wybodaeth a medrau i wrthsefyll meithrin perthynas amhriodol.

Mae pob aelod o staff yn darparu adroddiad ysgrifenedig wythnosol ar y gwaith a wnaed, sy'n adolygu targedau ac effaith, a chynhelir cyfarfodydd tîm wythnosol i drafod y gwaith. Mae'r prosiect yn cynllunio i gyflwyno cyfleoedd i bobl ifanc gyflawni cymwysterau am y gwaith a wnânt.

Mae'r Tîm Cymorth Ieuenctid Lleiafrifoedd Ethnig yn bodloni cyfarwyddebau Llywodraeth Cymru o ran cynlluniau cydraddoldeb strategol wedi'u datblygu gan awdurdodau lleol a pholisi Llywodraeth Cymru ar ffoaduriaid, ond mae'r dull o weithio gyda phobl ifanc yn dilyn egwyddorion Ymestyn Hawliau (Llywodraeth Cymru, 2002).

29 Yn aml, mae'r ddarpariaeth hon yn targedu'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed a'r rhai anoddaf eu cyrraedd. Heb y gwasanaethau hyn, ni fyddai llawer o bobl ifanc yn cael cymorth na'n cael mynediad at wybodaeth, arweiniad, gofal neu fannau diogel i fynd iddynt, lle gallant ymgysylltu â gweithwyr ieuenctid.

**Astudiaeth achos 3: Cymru Ddiogelach - Prosiect Bywyd Stryd**

Mae’r darparwr hwn, a ariennir gan Plant mewn Angen, yn gweithio gydag oddeutu 130 o weithwyr rhyw ifanc dros 18 oed yng Nghaerdydd, ac mae’n datblygu gwaith yn Abertawe. Mae’r holl bobl ifanc y gweithir â nhw yn y prosiect hwn wedi bod yn hysbys i’r gwasanaethau cymdeithasol yn y gorffennol. Mae’r gwaith yn seiliedig ar ddull gwaith ieuenctid lle datblygir anghenion a materion gyda’r bobl ifanc, wedi’u teilwra at anghenion ac amgylchiadau personol yr unigolyn. Mae’r gweithwyr yn meithrin ymddiriedaeth ac yn grymuso’r bobl ifanc i gyflawni’u nodau personol. Camau bach yw llawer o’r nodau hyn, ond mae’r rhain yn galluogi’r bobl ifanc i adeiladu tuag at ddeilliannau sy’n fwy sylweddol.

Hefyd, mae’r prosiect yn gweithio’n agos gyda thîm mentora ieuenctid Caerdydd i nodi a chynorthwyo merched iau 12 i 16 oed sydd mewn perygl o ymwneud â gwaith rhyw neu sydd eisoes yn ymwneud â gwaith rhyw. Mae’r tîm yn ymgysylltu â’r merched ifanc hyn ac yna’n eu hatgyfeirio ymlaen i gael cymorth mwy penodol, sy’n briodol i’w hanghenion.

Mae’r prosiect yn bodloni meini prawf cyllidwyr trwy gynnig mynediad i hyfforddiant achrededig Agored Cymru ar berthnasoedd iach, byw’n iach, ac iechyd rhywiol.

Mae’r prosiect hefyd yn gweithio yng ngharchar menywod Eastwood Park yng Nghaerloyw lle mae rhyw 50% o’r menywod yn Gymry.

## Arfarniad o'r ddarpariaeth bresennol

### Gweledigaeth ar gyfer gwaith ieuenctid, a dealltwriaeth ohono

30 Yn rhy aml, mae gweithwyr, rheolwyr, a llunwyr polisi yn drysu rhwng gwaith ieuenctid fel methodoleg a gwaith ieuenctid fel lleoliad. Nid yw hyn yn fuddiol ac mae'n arwain at ddryswch a gwrthdaro o fewn y sector. Er enghraifft, rhagdybir yn gyffredinol mai gwaith ieuenctid yw clybiau ieuenctid, ni waeth beth yw oedran y bobl ifanc sy'n bresennol, neu b'un a yw'r staff yn ymgysylltu â phobl ifanc gan ddefnyddio'r fethodoleg gwaith ieuenctid. Hefyd, cyfeirir yn amhriodol at waith gyda phlant o dan 11 oed yn aml fel gwaith ieuenctid.

31 Yn sgil cyflwyno gwasanaethau mwy targedig yn seiliedig ar agenda polisi benodol, mae rhai academyddion, a gweithwyr proffesiynol yn dadlau na all 'gwaith ieuenctid' ddigwydd os nad yw'r berthynas gyda'r unigolyn ifanc yn gwbl wirfoddol. Dadleuir bod gwaith ieuenctid yn ddibynnol ar yr unigolyn ifanc yn 'dewis' cysylltu â'r gweithiwr ac nad oes fyth 'gofyniad' ar yr unigolyn i wneud hynny. Fodd bynnag, medrau'r gweithiwr ieuenctid sy'n cynorthwyo'r unigolyn ifanc i ddewis ymgysylltu, ac i'w helpu i wneud dewisiadau hanfodol o ran ffordd o fyw, ni waeth beth yw'r lleoliad. Er enghraifft, efallai na fydd pobl ifanc sy'n ymgymryd â gweithgareddau peryglus fel arbrofi gyda sylweddau niweidiol er gwaetha'r risgiau iechyd yn dymuno newid eu hymddygiad yn rhwydd. Anaml y caiff cyflwyno sgyrsiau a modelau damcaniaethol i bobl ifanc effaith barhaol. Drwy'r berthynas o ymddiriedaeth sy'n cael ei meithrin gyda gweithiwr ieuenctid y mae pobl ifanc yn fwy tebygol o ddechrau cydnabod effaith eu hymddygiadau, a dechrau gweld drostynt eu hunain sut maent yn dymuno symud ymlaen.

32 Ceir canfyddiad cyffredin, gyda'r newid yn y ddarpariaeth gwasanaethau a ffocws, bod y defnydd o waith ieuenctid fel methodoleg wedi dirywio, ac fe'i disodlir yn gyffredinol gan rywbeth ag agenda fwy 'cywirol'. Mae rhywfaint o wirionedd yn hyn. Fodd bynnag, mae'r holl wasanaethau cymorth ieuenctid yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn yn dangos bod egwyddorion craidd gwaith ieuenctid yn parhau'n gadarn ac yn llywio'r dulliau a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol wrth weithio gydag unigolion neu grwpiau o bobl ifanc. Mae gwaith ieuenctid yn dal i ffynnu mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol a hynny'n bennaf yn sgil gwaith ac ymroddiad gweithwyr ieuenctid. Lle mai gwaith ieuenctid yw'r model pennaf a ddefnyddir mewn gwasanaeth cymorth ieuenctid, mae'r gwasanaethau hynny'n fwy perthnasol i bobl ifanc, maent yn gallu nodi'n well yr ystod ehangach o ffactorau sy'n effeithio ar yr unigolyn ifanc, ac maent yn gallu helpu pobl ifanc yn well i gyflawni'r nodau y cânt eu hannog i'w gosod iddyn nhw eu hunain.

## Dirywiad yn amrywiaeth y gwasanaethau cymorth ieuenctid

**‘Nid oes digon o bobl yn ymwybodol o wasanaethau ieuenctid – nid ydynt yn cael eu hysbysebu’n dda.’**

33 Ledled Cymru, mae ystod eang o wasanaethau cymorth ieuenctid ar gael i bobl ifanc, ond mae llawer o bobl ifanc naill ai heb fod yn gwybod amdanynt, neu ni allant gael mynediad iddynt. Mae llawer o wasanaethau’n darparu cymorth targedig effeithiol i bobl ifanc agored i niwed sydd ei angen. Fodd bynnag, nid yw dosbarthiad, lleoliad, a hygyrchedd y gwasanaethau hyn wedi’u cydlynu’n ddigon da i sicrhau bod mynediad cyfartal ar gael i bob unigolyn ifanc. Ymhellach, ceir diffyg cydraddoldeb yn y ddarpariaeth gwasanaethau ar draws yr ystod oedran lawn o 11 i 25. Mae hyn yn effeithio’n arbennig ar bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig lle mae cysylltiadau trafnidiaeth yn wael.

34 Bu dirywiad nodedig mewn darpariaeth mynediad agored, yn y gymuned a gwaith stryd lle mae’r berthynas gydag unigolyn ifanc yn un gwbl wirfoddol. Nid yw buddion y gwasanaethau hyn, i’r bobl ifanc a’u defnyddiodd, a’r cymunedau maent yn byw ynddynt, yn cael eu disodli. Mae llawer yn dadlau nad yw’r clwb ieuenctid hen ffasiwn gyda’i ffocws ar hamdden yn ddefnydd da o adnoddau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae clybiau ieuenctid yn lleoliadau pwysig lle gall gwaith ieuenctid ffynnu. Mae clybiau ieuenctid yn darparu ystod o gyfleoedd dysgu i bobl ifanc, yn amrywio o fedrau rhyngbersonol, medrau cynllunio ac arfarnu, medrau chwaraeon, celfyddydau a diwylliannol, yn ogystal â’r medrau sy’n ofynnol i fwy’n annibynnol. Mae clybiau ieuenctid yn bair ar gyfer cydlyniant cymdeithasol yn aml, lle caiff pobl ifanc eu cyflwyno i brofiadau newydd a lle maent yn dysgu i ddeall pobl o ardaloedd a diwylliannau eraill mewn amgylchedd diogel a reolir. Trwy weithgareddau ar y cyd, mae gweithwyr ieuenctid yn dod i adnabod pobl ifanc yn dda, a thrwy berthnasoedd cadarnhaol maent yn helpu mynd i’r afael â materion personol a chymunedol. Mae’r lleoliadau a’r cyfleoedd dysgu hyn mewn perygl erbyn hyn, ac yn mynd yn fwyfwy prin.

35 Ceir gostyngiad hefyd yn y ffocws ar waith penagored gyda phobl ifanc lle mae gweithwyr ieuenctid yn gweithio ochr yn ochr â phobl ifanc, yn eu cynorthwyo a’u herio wrth iddynt ddatblygu’u gwydnwch emosiynol eu hunain, eu medrau llunio barn a’u medrau penderfynu.

36 Ar y llaw arall, mae llawer o awdurdodau lleol yn arddangos dulliau arloesol hefyd o fodloni anghenion rhai pobl ifanc sy’n agored iawn i niwed. Er enghraifft, er mwyn ymateb i anawsterau a wynebir gan blant sy’n derbyn gofal wrth sicrhau cyflogaeth, mae ychydig o awdurdodau lleol wedi ymgorffori gofynion i ddarparu cyfleoedd prentisiaeth a hyfforddeiaeth i’r bobl ifanc hyn yn eu trefniadau contractiol gyda chyflenwyr a ffefrir.

37 Ar hyn o bryd, mae’r mwyafrif o wasanaethau cymorth ieuenctid yn canolbwyntio’n bennaf ar fynd i’r afael ag anghenion y rhai o dan 18 oed. Mae gwasanaethau i fynd i’r afael ag anghenion y rhai rhwng 18 a 25 oed yn llai niferus ac yn llai hygyrch. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau nodedig o waith arloesol ac effeithiol gyda’r grŵp oed 18 i 25 fel prosiect ‘Grassroots’ yng Nghaerdydd.

**Astudiaeth achos 4: Prosiect Grassroots: cymorth targedig i bobl ifanc yng nghanol dinas Caerdydd**

Mae’r prosiect hwn sydd wedi bodoli ers tro yng nghanol Caerdydd yn derbyn cyllid gan Gyngor Caerdydd. Mae’n elusen gofrestredig hefyd. Mae hyn yn rhoi’r hyblygrwydd i’r prosiect geisio cyllid ychwanegol a bodloni agendâu ehangach yn ogystal â chyflawni gofynion polisi’r awdurdod lleol. Mae’r prosiect yn un o ychydig o brosiectau yng Nghymru sy’n gweithio gyda phobl ifanc hŷn.

Mae’r prosiect yn gyfuniad o gyfleuster galw heibio gyda stiwdio gerdd a chelfyddydau digidol o ansawdd uchel, a lleoliad ar gyfer cymorth targedig trwy berthnasoedd gwirfoddol a gorfodol. Mae’r adeilad yn cynnig man diogel ac anogol i bobl ifanc sy’n amharod i ymweld ag adeiladau ‘swyddogol’ i geisio cymorth. Trwy gynllunio integredig gyda gwasanaeth ieuenctid Caerdydd, a phartneriaeth gydag amrywiaeth o asiantaethau, gall pobl ifanc sy’n agored iawn i niwed gael mynediad i amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- mentor ôl-16 / cynghorydd personol â llwyth achosion ffurfiol
- cyngor ar yrfaoedd, cymorth i ymgymryd â dysgu yn y gwaith ac addysg bellach
- clwb swyddi
- ymyriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol
- gwasanaethau cymorth teuluol
- asesiadau iechyd meddwl
- cymorth gyda chosbau yn y gymuned.

Mae’r prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â’r tîm stryd allgymorth, @Street Wise Project, a’r tîm camfanteisio’n rhywiol ar blant sy’n atgyfeirio pobl ifanc at y cyfleusterau. Nid yw gweithwyr yn barnu, ac maent yn fedrus wrth ddelio â gwrthdaro, trais a masnachu cyffuriau. Maent yn hyrwyddo goddefgarwch o ddiwylliannau gwahanol ac yn cynnig cymorth LGBTQIA.

Mae’r prosiect yn gweithio gyda’r rhai digartref a phobl ifanc sy’n cysgu allan yn y ddinas. Mae’n galluogi’r bobl ifanc hyn i gael canolfan lle gallant dderbyn post neu gyfarfod â gweithwyr proffesiynol. Mae un ddynes ddigartref ifanc dalentog yn rhedeg cwmni cardiau cyfarch gyda chymorth y prosiect.

Mae’r ganolfan ar agor un noson ar gyfer grŵp cymorth targedig i bobl ifanc â syndrom Asperger sy’n cael cyfeillgarwch a chymorth y tu allan i’r ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymddygiad cymdeithasol y bobl ifanc ac mae’n ehangu’u gorwelion.

Mae arweinydd y prosiect yn siaradwr Cymraeg a cheir gallu da yn y Gymraeg. Hefyd, mae’r prosiect yn cefnogi siaradwyr ieithoedd eraill, er enghraifft,dynion ifanc o Rwmania. Mae’r ganolfan yn cynnig gwaith wyneb-yn-wyneb gyda phobl ifanc mewn amgylchiadau heriol iawn ar sail caredigrwydd a derbynioldeb. Mae gweithwyr yn ysgrifennu at bobl ifanc

sydd wedi mynd i'r ddalfa ac yn cynorthwyo rhieni ifanc drwy wrandawiadau cyfreithiol sy'n effeithio ar warchodaeth eu plant.

Erbyn hyn, mae llawer o'r gwaith yn y ganolfan yn cael ei yrru gan dargedau ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau er mwyn bodloni gofynion cyllido. Defnyddir systemau gwybodaeth rheoli i gofnodi asesiadau, ymyriadau a phenderfyniadau er mwyn darparu data pwysig i helpu targedu gwasanaethau.

Dangosir enghreifftiau o ymyriadau sy'n newid bywydau gan storïau unigol ar eu gwefan.

### Gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol

38 O ganlyniad i newidiadau polisi, sy'n effeithio ar wasanaethau ar gyfer pobl ifanc, mae gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol wedi addasu sut maent yn darparu a beth maent yn ei ddarparu. Mae hyn yn golygu nad oes model cyson mwyach ar gyfer gwasanaeth ieuenctid ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.

39 Mae gweithwyr ieuenctid sy'n gweithio gyda phobl ifanc ar sail un-i-un orfodol yn adrodd y byddent yn gwerthfawrogi lleoliadau diogel, sy'n hwylus i bobl ifanc lle gallent naill ai gymryd pobl ifanc er mwyn gweithio gyda nhw neu eu hatgyfeirio at fan lle gallai gwaith cefnogol gael ei ymestyn yn eu hamser hamdden. O ystyried cyfyngiadau cyllid, mae'n annhebygol y bydd darparwyr cyhoeddus yn datblygu canolfannau mynediad agored newydd i bobl ifanc yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, bu cynnydd sylweddol mewn mannau masnachol lle mae pobl ifanc yn ymgasglu ar gyfer gweithgareddau fel bowlio, trampolinio a gweithgareddau hamdden eraill. Gall cynghreiriau llawn dychymyg rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat agor cyfleoedd i weithwyr ieuenctid ymgysylltu ag ystod ehangach o bobl ifanc a chynnig cymorth, cyngor ac arweiniad a'u hatgyfeirio at asiantaethau eraill.

40 Ceir un enghraifft dda o ganolfan ieuenctid mwy traddodiadol yn Abertyleri. Caiff y ganolfan hon ei rheoli gan y gwasanaeth ieuenctid ac mae ganddi gyfleusterau ansawdd uchel a chymysgedd o waith ieuenctid traddodiadol mynediad agored a gwaith targedig. Fodd bynnag, yma, fel mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru, mae'n anodd yn aml i bobl ifanc, yn enwedig y rheini sy'n agored i niwed neu'n dod o gefndiroedd difreintiedig, deithio i ganolfannau.

### Y sector gwirfoddol a'r trydydd sector

41 Mae'r sector gwirfoddol yn mynd i'r afael â rhywfaint o ddiffyg y ddarpariaeth mynediad agored. Yn ogystal, bu twf mewn gwaith gyda phobl ifanc yn cael ei arwain gan rieni, a phrosiectau menter gymunedol neu brosiectau a arweinir gan y gymuned i ddiwallu anghenion cymdogaeth. Mae perygl, fodd bynnag, nad yw'r clybiau a'r gweithgareddau 'annibynnol' hyn yn cael eu rheoleiddio o bosibl, gallant fod yn defnyddio gwirfoddolwyr sydd heb gael hyfforddiant i raddau helaeth, gall fod ychydig iawn o waith ieuenctid yn cael ei gynnal ynddynt ac maent ar gael i grwpiau penodol o bobl ifanc yn unig.

42 Mae'r sector gwirfoddol yn chwarae rhan amhrisiadwy a hanfodol i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae sefydliadau allweddol y sector gwirfoddol fel yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, cynllun Gwobr Dug Caeredin, ac Ymddiriedolaeth y Tywysog yn darparu gweithgareddau pwysig sy'n datblygu hunanddibyniaeth pobl ifanc ac yn ehangu'u profiadau. Hefyd, mae grwpiau gwirfoddol yn darparu gwasanaethau arloesol, targedig ar gyfer pobl ifanc. Er enghraifft, mae canolfan Pobl Ifanc Cwmbrân yn darparu cyfuniad o glybiau ieuenctid galw heibio, mynediad agored, a gwaith entrepreneuraidd sy'n helpu pobl ifanc ddatblygu'u medrau busnes, yn ogystal â pharatoi ar gyfer cyrsiau gwaith i bobl ifanc sydd wedi cael anhawster cael cyflogaeth.

43 Mae'r sector gwirfoddol yn ymwneud yn eang hefyd â darparu gwasanaethau a oedd yn cael eu rheoli'n flaenorol gan yr awdurdod lleol ac yn cael eu harwain gan weithwyr ieuenctid cyflogedig. Yn aml, mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys clybiau ieuenctid mynediad agored mewn lleoliadau yn y gymuned leol, fel neuaddau eglwys, a chânt eu rhedeg gan rieni a gwirfoddolwyr. Mae'r sector gwirfoddol hefyd yn darparu gwasanaethau trwy brosiectau cydweithio, yn seiliedig ar bartneriaethau, a gwaith arbenigol wedi'i gomisiynu.

44 Mae sefydliadau gwirfoddol yn llai tebygol o gael gwahoddiad i gymryd eu lle yn effeithiol o amgylch y bwrdd rheoli strategol gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn golygu nad yw cynllunwyr yn sicrhau bod y sector gwirfoddol wedi'i alluogi i wneud cyfraniad effeithiol at gynllunio gwasanaethau. Mae awdurdodau lleol yn tueddu gweld eu gwaith partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol mewn golau mwy cadarnhaol nag y mae cyrff y sector gwirfoddol yn ei weld. Mae llawer o wasanaethau cymorth ieuenctid y sector gwirfoddol yn ystyried bod eu cyfraniad at wasanaethau lleol a chynllunio wedi'i gyfyngu'n gyffredinol i weithgarwch wedi'i gomisiynu, ac mai cyfleoedd cyfyngedig a gânt i gyfranogi mewn trafodaethau ar lefel strategol. Maent yn dadlau bod yr agenda wedi canolbwyntio gormod ar gyfrifoldebau awdurdodau lleol, fel anghenion adrannau addysg ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol, ac mai dim ond i'r graddau y gall gyfrannu at yr agenda hon y gwelir gwaith y sector gwirfoddol yn waith gwerthfawr.

### Gwaith ieuenctid mewn lleoliadau addysg ffurfiol

> **'Gall pawb ymweld i gael cefnogaeth emosiynol neu gyngor. Maent yn rhoi cyngor ar yrfaeodd weithiau hefyd, ac maent ar gael yn bennaf i ddarparu clust i wrando i'r myfyrwyr y maen angen iddynt gael eu clywed.'**

45 Roedd strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru 2014-2018 (Llywodraeth Cymru, 2014) yn cynnwys amcanion yn ymwneud â gwella ansawdd a maint gwaith ieuenctid a geir mewn ysgolion a cholegau. Fodd bynnag, mewn ysgolion yn bennaf y cafwyd y ffocws ar ddatblygu'r ddarpariaeth gwasanaethau cymorth mewn lleoliadau addysg ffurfiol, yn seiliedig ar ddulliau gwaith ieuenctid. Ceir gwaith mwy cyfyngedig mewn colegau addysg bellach a lleoliadau dysgu yn y gwaith.

46 Erbyn hyn, mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol rhyw fath o wasanaethau ymyrraeth gwaith ieuenctid mewn ysgolion. Mae'r gwasanaethau hyn yn amrywio'n

eang o gymorth un-i-un yn yr ysgol, gan gynnwys ymyrraeth addysgol a threfniadau dal-i-fyny a chyflwyno gwersi addysg bersonol a chymdeithasol, i gymorth ymddygiad, mentora, a chwnsela. Yn aml, mae gweithwyr ieuenctid yn gweithio gyda phobl ifanc i roi'r cymorth iddynt i osgoi allgau, tra'u bod ar waharddiadau cyfnod penodol neu gyda phobl ifanc mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) neu'r rheini sydd wedi'u gwahardd o UCDau, gyda'r nod o ailintegreiddio i'r system addysg. Mae rhwystrau niferus sylweddol rhag addysg, ymddygiad heriol a chefndiroedd teuluol cythryblus gan lawer o'r bobl ifanc yn yr amgylchiadau hyn. Mae'r staff sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r gwaith hwn yn amrywio ar draws modelau awdurdodau lleol, o weithwyr ieuenctid â chymhwyster proffesiynol, i weithwyr cymdeithasol, gwirfoddolwyr, a staff y sector cyhoeddus. Mewn un ysgol uwchradd, hyd yn ddiweddar, roedd gweithwyr ieuenctid yn mynychu ac yn darparu cymorth i ddisgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, ers i'r cymorth hwn gael ei gwtogi, bu dirywiad nodedig ym mhresenoldeb ac ymddygiad disgyblion. Nawr, mae'r awdurdod lleol yn edrych i mewn i hyn ac yn ystyried sut i ddiwygio'i ddarpariaeth ar gyfer gwaith ieuenctid mewn ysgolion.

47 Mae effaith dulliau gwaith ieuenctid mewn addysg ffurfiol yn gymysg. P'un a yw'r rhaglenni hyn mewn gwirionedd yn darparu 'gwaith ieuenctid' yn hytrach na 'gwaith gyda phobl ifanc', mae hynny'n dibynnu ar nifer o ffactorau, ac yn bennaf, profiad a chymwysterau'r gweithwyr, a hefyd, ar ba mor dda y mae'r ysgol yn deall ac yn cefnogi'r model gwaith ieuenctid. Lle mae egwyddorion ac ymarfer gwaith ieuenctid yn llywio'r gwasanaethau hyn, mae ysgolion, gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc yn adrodd bod y gwaith hwn yn cael ei werthfawrogi'n fawr, ei fod yn gwella hunan-barch pobl ifanc, ac yn helpu pobol ifanc i nodi a chyflawni'u nodau. Pan fydd hyn yn gweithio'n dda, mae gwaith ieuenctid yn chwarae rhan amhrisiadwy i gynorthwyo pobl ifanc nad oes ganddynt fawr o opsiynau ar ôl iddynt yn aml, gan eu helpu'n aml i gadw mewn cysylltiad ag addysg ffurfiol o leiaf, ac allan o'r system cyfiawnder ieuenctid. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae'r cyfleoedd gwaith ieuenctid a ddarperir yn gyfyngedig i wasanaethau ymyrraeth.

48 Wrth drafod gwaith ieuenctid mewn ysgolion, nododd pobl ifanc eu bod yn pryderu bod y gwaith ieuenctid a ddarperir mewn ysgolion yn waith targedig ac nid yn gyffredinol. Teimlant nad oes ganddynt ddigon o fynediad agored i ymgysylltu â gweithwyr ieuenctid yn yr ysgol, ac mai dim ond pobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio sydd â mynediad at ymyriadau penodol yn gyffredinol.

49 Mae prosiect llwybrau dysgu Caerffili yn nodweddiadol o lawer o brosiectau mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. Sefydlwyd y prosiect hwn i gynorthwyo disgyblion y mae angen mynediad arnynt at ymagweddau gwahanol at y cwricwlwm. Mae athrawon a gweithwyr ieuenctid yn gweithio'n dda â'i gilydd, i ddarparu cyfleoedd mwy pwrpasol i ddisgyblion y mae angen hyn arnynt. Cyflawnant hyn drwy newidiadau i'r modd y caiff pethau eu haddysgu, a thrwy ymgorffori cynnwys mwy perthnasol yn y cwricwlwm. Mae'r ffordd hon o weithio wedi helpu staff addysgu ar draws yr ysgol i ymgorffori rhywfaint o'r fethodoleg o'r prosiect i'w haddysgu eu hunain yn y brif ffrwd.

50 Yng Ngheredigion, mae ysgol uwchradd yn cyflogi gweithiwr ieuenctid yn benodol oherwydd nad athro ydyw, ac felly mae mewn rôl broffesiynol wahanol wrth weithio gyda disgyblion y mae angen cymorth arnynt. Caiff athrawon bugeiliol yr ysgol eu

cyfyngu gan ymrwymiadau’r amserlen, ond mae’r gweithiwr ieuenctid yn fwy rhydd i weithio gyda phobl ifanc, fel y bo’r angen. Mae’r gweithiwr ieuenctid gwrywaidd yn gallu cynnig gwaith pwrpasol yn well, fel gweithio gyda disgyblion sy’n fechgyn nad oes modelau rôl gwrywaidd cryf ganddynt. Yn bennaf, daw disgyblion o Flynyddoedd 9 a 10. Mae eu hymgysylltiad yn wirfoddol. Caiff gwaith ei wneud yn ystod y diwrnod gwaith ysgol, ond nid yn ystod gwersi craidd. Mae’r rhan fwyaf o sesiynau yn waith un-i-un neu waith grŵp llai os ydynt yn seiliedig ar sesiwn medrau cymdeithasol neu reoli ymddygiad.

51 Mae llai o waith ieuenctid yn cael ei wneud mewn colegau addysg bellach, er bod colegau yn darparu mwy a mwy o gwnsela a mynediad at wasanaethau iechyd meddwl er mwyn diwallu angen cynyddol. Fel arfer, mae gwaith mewn addysg ôl-16 yn gysylltiedig â’r gyrwyr polisi mewn perthynas ag ymgysylltu ag ieuenctid. Gwaith ymyrryd yw hwn i fodloni agendâu cyflogaeth, ac er ei fod yn cefnogi hyfforddiant pobl ifanc ac yn mynd i’r afael â rhwystrau uniongyrchol rhag dysgu, nid gwaith ieuenctid ydyw yn aml, a bod yn fanwl gywir. Mae’r gwaith hwn yn werthfawr ac effeithiol, ac mae ychydig o brosiectau arloesol yn datblygu sy’n pontio’r bwlch rhwng yr ysgol a’r coleg i bobl ifanc sy’n cael anhawster gydag addysg draddodiadol. Un enghraifft yw Coleg Caerdydd a’r Fro, lle ceir cydweithio agos gyda gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol i ddatblygu rhaglenni ar gyfer pobl ifanc na fyddent fel arall yn cael darpariaeth coleg.

52 Yn y sector dysgu yn y gwaith, mae ychydig o ddarparwyr yn gwneud defnydd da o egwyddorion gwaith ieuenctid i ymgysylltu’n effeithiol â phobl ifanc sy’n ei chael hi’n anodd cyfranogi yn y byd gwaith. Er enghraifft, mae darparwyr dysgu yn y gwaith fel elusen tai Llamau, Canolfan Cwmbrân ar gyfer Pobl Ifanc, y YMCA, Itec Training Solutions ac Acorn Training yn defnyddio dulliau gwaith ieuenctid. Darparant sesiynau lle gall pobl ifanc ymgysylltu’n effeithiol â staff gwaith ieuenctid hyfforddedig a chymwys, sy’n gallu darparu gwaith cwnsela, cyngor ac arweiniad generig, a phecynnau cymorth pwrpasol i fynd i’r afael â materion tai, materion iechyd a ffordd o fyw a digartrefedd, yn ogystal â gwaith sy’n datblygu medrau cymdeithasol drwy weithgareddau hamdden.

**‘Mae gweithiwr ieuenctid ar gael yn yr ysgol ond nid wyf yn bodloni’r meini prawf. Mae clwb ieuenctid gerllaw lle rwy’n byw ond nid yw fy mam yn gadael i fi fynd am fod y codwyr twrw’n mynd yno.’**

### Defnyddio’r Gymraeg yn y gwasanaethau cymorth ieuenctid

53 Er gwaethaf gofynion cyfreithiol i’r Gymraeg a’r Saesneg gael eu trin yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, nid oes strategaeth effeithiol i wneud i hyn ddigwydd mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn defnyddio’u polisi a’u strategaeth cyfrwng Cymraeg corfforaethol i danategu beth a ddisgwyliant gan ddarparwyr gwasanaethau wrth ddatblygu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio’u medrau Cymraeg. Fodd bynnag, mae’r ddarpariaeth gwasanaeth cymorth ieuenctid wedi’i chynnwys yn gyffredinol yn y cynllun strategol generig Cymraeg mewn addysg, sy’n canolbwyntio ar ddarpariaeth addysg ffurfiol yn bennaf yn hytrach na darpariaeth addysgol anffurfiol neu heb fod

yn ffurfiol. O ganlyniad, nid oes tystiolaeth dda o anghenion Cymraeg pobl ifanc y tu allan i addysg ffurfiol, nid ydynt yn cael eu blaenoriaethu, ac ni sicrheir eu hansawdd yn erbyn cynllun strategol. Caiff cyfle pwysig i ddatblygu medrau Cymraeg dysgwyr a normaleiddio'r defnydd o'r iaith ar draws cymunedau ei golli.

54 Mae'r holl wasanaethau ieuenctid awdurdod lleol yn datgan eu hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r hyn mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd yn amrywio ledled Cymru. Mewn rhai achosion, mae'n golygu darpariaeth arbenigol ddwyieithog yn y man cyflwyno, ac mewn achosion eraill, mae'n golygu mynediad at staff cymorth ieuenctid sy'n siarad Cymraeg, o wneud cais. I'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae hyn hefyd yn golygu darpariaeth uniaith Gymraeg lle mae'r ffocws yn gyffredinol ar y defnydd o'r Gymraeg gan staff a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y ddarpariaeth.

55 Yn gyffredinol, rhennir gwasanaethau cymorth ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn ddau fath. Mae un math yn ymwneud â gwasanaethau sydd â chylch gwaith i ddatblygu gweithgareddau diwylliannol Cymraeg, ac yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhain ar ffurf grwpiau, clybiau a gweithgareddau ieuenctid yn gyffredinol. Deellir y gweithgareddau hyn yn dda, a darperir yn dda ar eu cyfer. Mae'r math arall yn ymwneud â gwasanaethau cymorth ieuenctid sydd wedi'u cynllunio i gynorthwyo anghenion pobl ifanc neu eu helpu i fynd i'r afael â rhwystrau rhag addysg a chyflogaeth, a ddylai fod yn ddwyieithog fel mater o drefn. Nid yw'r gwasanaethau hyn wedi'u hystyried mor drwyadl neu ni chânt eu cefnogi gystal gan gynllunio rhagweithiol, ac yn aml nid ydynt ar gael yn hawdd trwy gyfrwng y Gymraeg.

56 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi comisiynu sefydliadau'r sector gwirfoddol fel y Ffermwyr Ifanc, yr Urdd a Menter Iaith i arwain ar gyflwyno darpariaeth hamdden a diwylliannol trwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod y gwasanaethau hyn o ansawdd uchel yn gyffredinol, ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y bobl ifanc sy'n cyfranogi ynddynt, maent yn tueddu apelio at grwpiau penodol o bobl ifanc yn unig, ac mewn ardaloedd daearyddol penodol. Rai blynyddoedd yn ôl, ceisiodd rhai awdurdodau lleol symud i ffwrdd oddi wrth ddarpariaeth Gymraeg arbenigol, gan geisio cyflwyno elfen fwy dwyieithog i'r clybiau ieuenctid a'u gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae cyfyngiadau cyllid a'r angen i fodloni gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011a) wedi arwain at ddychwelyd i roi gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gontract allanol i ddarparwyr arbenigol. Mae sefydliadau eraill y sector gwirfoddol (oni bai bod ganddynt rôl benodol i wneud hyn) yn llai tebygol o ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

57 Mae pob awdurdod lleol yn cyflogi rhai aelodau staff sy'n siarad Cymraeg. Mewn rhai achosion, rôl y staff hyn yw datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac ymateb i geisiadau am wasanaethau yn Gymraeg. Mewn achosion eraill, y strategaeth yw cryfhau timau staff generig trwy gynnwys staff sy'n siarad Cymraeg.

58 Dangosodd ymatebion i arolwg Estyn o wasanaethau cymorth ieuenctid (gweler atodiad 3) mai dim ond 26% o ymatebwyr sydd wedi cael cynnig gwasanaethau cymorth ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg (neu iaith wahanol), pe bai angen. Yn fras, adroddodd 42.5% nad oedd angen gwasanaethau arnynt mewn iaith wahanol.

59 Mae’r rhan fwyaf o ddarparwyr yn adrodd nad yw pobl ifanc, yn gyffredinol, yn gofyn am wasanaethau cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai’r datganiad hwn, fodd bynnag, gelu rhwystrau sefydliadol, a allai ei gwneud hi’n anodd i bobl ifanc arddel eu dymuniad i gael gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Ceir diffyg gwasanaethau cymorth fel cwnsela, help gyda materion iechyd meddwl, cam-drin cyffuriau ac alcohol a rheoli ymddygiad trwy gyfrwng y Gymraeg, er bod hyn yn amrywio’n anochel ar draws ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn bennaf ac ardaloedd di-Gymraeg yn y wlad. Fodd bynnag, pan fydd unigolyn mewn trafferth ac angen gwasanaeth ar fyrder, mae ef neu hi yn llai tebygol o ofyn am weithiwr sy’n siarad Cymraeg pan fydd yn ymwybodol nad oes gweithiwr felly ar gael yn rhwydd efallai, neu fod rhestrau aros hir am gymorth arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg. Ond mewn gwasanaethau mynediad agored a gwasanaethau â ffocws ar ddiwylliant Cymru, gall pobl ifanc wneud defnydd da o’u medrau Cymraeg. Fodd bynnag, mae llawer o waith i’w wneud eto i ddatblygu’r meddwl strategol ynglŷn ag hyrwyddo ac ymgorffori darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

60 Mae ‘gwahanu’ gwasanaethau cymorth ieuenctid cyfrwng Cymraeg o’r brif ffrwd i grwpiau penodol Cymraeg ar gyfer pobl ifanc yn helpu darparwyr i fodloni’r agenda polisi i gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg, ond nid yw o angenrheidrwydd yn cynyddu maint darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog, na’n arwain at gydraddoldeb parch rhwng y ddwy iaith. Mae’n enghraifft o bolareiddio gwasanaethau, symud y ffocws ar gyfer gwasanaeth cyfrwng Cymraeg i ffwrdd oddi wrth ddarpariaeth mynediad agored a allai wella cydlyniant cymdeithasol, a gwasanaethau arbenigol targedig ar gyfer grwpiau lleiafrif neu grwpiau agored i niwed fel LGBTQIA neu bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig, troseddwyr ifanc, pobl ifanc anabl neu’r rheini sy’n byw mewn tlodi. Dim ond ychydig o wasanaethau cymorth ieuenctid pwysig sy’n cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg neu sydd ar gael yn ddwyieithog. Er enghraifft, y gwasanaeth gwybodaeth ac eiriolaeth cenedlaethol, Meic, a weinyddir gan Promo Cymru, yw’r gwasanaeth llinell gymorth i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru. Gwasanaeth gwrando yw hwn, gyda gwybodaeth, cyngor defnyddiol, a chymorth. Mae gwefan ddeniadol a hygyrch gan y gwasanaeth cyffredinol hwn, ac mae ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae llawer o bobl ifanc Cymraeg eu hiaith yn byw mewn ardaloedd mwy gwledig lle nad oes modd cael mynediad i’r rhyngrwyd bob amser, neu nid yw’n ddibynadwy o hyd.

## Cynllunio ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid

### Diffyg cyfeiriad strategol

61 Er bod athroniaeth sylfaenol Ymestyn Hawliau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002), sy'n seiliedig ar agenda hawliau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn berthnasol o hyd a derbynnir ei egwyddorion craidd yn gyffredinol, mae'r arweiniad ar y modd y dylai gwasanaethau ieuenctid gael eu cyflwyno wedi dyddio bellach. Nid yw'n adlewyrchu anghenion pobl ifanc yn ddigon clir mwyach, na chyfeiriadau polisi presennol Llywodraeth Cymru, ystod y gwaith gwasanaeth cymorth ieuenctid sy'n cael ei ddarparu, na rolau'r darparwyr amrywiol. Nid yw'r arweiniad yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol mwyach gan yr amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau cymorth ieuenctid ar gyfer pennu cyfeiriad strategol neu ddatblygu rheolaeth gydlynus ar wasanaethau.

62 Diben cyflwyno'r agenda plant i'r hyn a oedd yn agenda gwaith ieuenctid i gychwyn, gostwng yr oedran o 11 i newydd-anedig, a chyflwyno'r partneriaethau plant a phobl ifanc, oedd darparu dull di-dor o gyflwyno gwasanaethau. Fodd bynnag, arweiniodd hyn at bolisi ofer a gwyrodd gwasanaethau a chyllid i ffwrdd oddi wrth anghenion pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc. Roedd ymdrechion yn canolbwyntio'n anochel ar grwpiau penodol, yn y grŵp oed iau yn aml, a chanddynt fwy o angen ymyriadau brys ac arbenigol. Er gwaethaf ymdrechion gan y rheini a oedd yn darparu gwasanaethau ar lefel leol, nid oedd partneriaethau plant a phobl ifanc, a gâi eu rhwystro gan fuddiannau cystadleuol yn aml, yn effeithiol mwyach, ac yn y rhan fwyaf o achosion fe'u diddymwyd yn raddol. Mewn llawer o ardaloedd, fodd bynnag, mae cynghreiriau a adeiladwyd tra'r oedd y partneriaethau yn gweithredu yn dal i gefnogi'r ddarpariaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid yn effeithiol.

63 Mae awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau cymorth ieuenctid eraill yn adrodd bod y diffyg polisi cenedlaethol cydlynus yn ei gwneud hi'n anodd i ddarparwyr ac awdurdodau lleol yn arbennig adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn eu cynllunio strategol a'u cyflawniad gweithredol. Nid oes model integredig sy'n uno'r ystod eang o wasanaethau neu'n gwneud yn siŵr bod gwasanaethau cymorth ieuenctid digonol a phriodol yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r cynllunio'n aml yn ddigyswllt, yn amhendant ac yn anatebol yn genedlaethol, ac nid yw'n darparu llwybr hawdd ei ddilyn i bobl ifanc drwy'r gwasanaethau sydd ar gael.

64 Mae newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth wedi arwain at newidiadau mewn cynllunio gwasanaethau a strwythurau llywodraethu ar lefel awdurdod lleol. Mae rhyddhau cynllunio partneriaethau i awdurdodau lleol wedi arwain at ddatblygu trefniadau partneriaeth mwy 'ad hoc'. Nid yw'n eglur sut mae darparwyr gwasanaethau yn cydweddu â'i gilydd, nac â rhaglenni addysg, cyflogaeth a gwrthdlodi Llywodraeth Cymru, a pha mor dda y mae'r cynllunio yn galluogi diwallu anghenion plant a phobl ifanc.

65 Fodd bynnag, mae gwasanaethau cymorth ieuenctid, a gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn benodol, yn dda o ran gwneud i bethau weithio, hyd yn oed pan fo cyfeiriad polisi i'w weld yn aneglur neu'n anghyson. Y gallu hwn i 'newid gwedd' er

mwyn bodloni polisïau a blaenoriaethau newidiol sydd wedi galluogi llawer o brosiectau gwaith ieuenctid i oroesi, gan ddiogelu ffordd o weithio gyda phobl ifanc a ymgorfforwyd yn Ymestyn Hawliau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002). Er gwaetha'r gwydnwch hwn, ceir diffyg dealltwriaeth gyffredinol o bŵer ac effaith cadarnhaol y model gwaith ieuenctid ymhlith llunwyr polisi, ac yn aml caiff polisïau ieuenctid da eu bwriad eu gwthio i waelod y domen pan fydd adnoddau'n brin.

### Cynllunio lleol

**'Nid oes llawer i'w gael nawr, mae'r clwb ieuenctid roeddwn i'n arfer mynd iddo wedi cau, a gall rhai clybiau ieuenctid fod yn rhy snobyddlyd.'**

66 Nid yw pobl ifanc yn sicr o gael mynediad i'r cynnig cynhwysfawr iddynt a amlinellir yn 'Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru' (Llywodraeth Cymru, 2016). Nid yw cynllunio lleol ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid wedi'i seilio ar ystod y cyfleoedd y mae'r siarter hon yn eu ceisio. Nid oes fawr o dystiolaeth, os oes tystiolaeth o gwbl, fod awdurdodau lleol yn defnyddio'r siarter hon i lywio'u trefniadau cynllunio neu arfarnu gwasanaethau. Mae'r defnydd gwael a wneir o'r siarter hon yn gyfle wedi'i golli i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wrth iddynt ddatblygu gwasanaethau cymorth ieuenctid ac ymgorffori gwaith ieuenctid yn y gwasanaethau hyn fel y model allweddol ar gyfer cyflwyno darpariaeth o ansawdd uchel.

67 Yn flaenorol, gosododd partneriaethau pobl ifanc gynsail addawol ar gyfer cydweithredu a gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth er mwyn cyflwyno amrywiaeth o wasanaethau i gynorthwyo pobl ifanc wrth bontio rhwng blynyddoedd yr arddegau i fyd oedolion, a'u helpu i chwarae rhan weithgar yn eu cymunedau a'r gymdeithas ehangach. Gwnaeth y partneriaethau hyn ymgais wirioneddol i ystyried anghenion yr holl bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, ac i ddiwallu'r anghenion hyn lle gallent wneud hynny. Yn fwy diweddar, nid yw prosesau cynllunio'n gwneud digon i sicrhau bod gwasanaethau cymorth ieuenctid ar gael yn rhwydd i bobl ifanc. Er gwaetha'r pwyslais polisi ar dargedu pobl ifanc sy'n agored i niwed, nid yw gwasanaethau'n hygyrch yn aml i'r bobl ifanc hynny sy'n arbennig o agored i niwed, dan anfantais neu wedi'u hymyleiddio, ac nid yw llawer ohonynt yn gwybod ble i gael cymorth.

68 Mae'r seilwaith i ddarparu gweithgareddau ystyrlon, sy'n cefnogi gweithgareddau cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc, yn amrywio'n fawr ar hyd a lled Cymru. Yn gyffredinol, pan ddarperir y gwasanaethau hyn drwy gydweithio â gwasanaethau fel plismona cymunedol, tai a gwaith hamdden gyda phobl ifanc, maent yn fwy effeithiol.

69 Nid yw un o nodweddion craidd Ymestyn Hawliau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002), a oedd yn mynnu cydlynu gwasanaethau yn lleol yn erbyn angen dynodedig, wedi'i rhoi ar waith. Ymddengys bod llawer o wasanaethau yn cael eu datblygu trwy broses adweithiol, yn hytrach nag fel darpariaeth gynlluniedig a strategol yn cael ei chyflwyno'n raddol. Yn benodol, nid oes llawer o gynllunio ffurfiol i ystyried angen pobl ifanc am wasanaethau cydgysylltiedig, lle mae pobl ifanc yn byw gerllaw ffiniau awdurdodau lleol, ac yn defnyddio gwasanaethau ar draws y rhain. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015) yn darparu cyd-destun defnyddiol a thrwy hwnnw mae awdurdodau lleol a'u partneriaid Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn dechrau ail-nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer pobl ifanc.

70 Yn gyffredinol, mae cynlluniau awdurdodau lleol cyfredol yn dilyn model cyffredin, gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn darparu un cynllun lefel uchaf, sy'n arwain at gynllun gwella corfforaethol. Mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun gwella yn ffurfio'r templed ar gyfer rheoli perfformiad meysydd gwasanaeth. Yna, mae'r blaenoriaethau hyn yn effeithio ar bennu cyllideb. Cysylltir cynlluniau gwella gwasanaethau â themâu trawsbynciol corfforaethol yn ogystal â llinellau darpariaeth uniongyrchol. Yn aml, fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau hyn yn cynnwys ffocws ar bobl ifanc. Nid yw'n glir yn aml pa statws sy'n cael ei roi i gynnwys gwasanaethau cymorth ieuenctid yn y strwythur hwn, na sut y pennir gwerth i'r gwasanaethau hyn, a'u hariannu wedyn.

71 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015) yn gwneud defnydd cynyddol o strwythurau bwrdd i yrru mentrau trawsbynciol yn eu blaenau, ac i ddarparu strwythur atebolrwydd mewnol. Mae'r mentrau hyn yn canolbwyntio'n aml ar themâu, y gall rhai ohonynt fod yn targedu grwpiau dinasyddion penodol, neu boblogaethau lefel cymdogaeth. Caiff y gwaith o nodi anghenion pobl ifanc a darpariaeth gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol eu bwndelu'n gyffredinol o fewn y mentrau trawsbynciol hyn. O ganlyniad, fodd bynnag, mae pobl ifanc fel grŵp penodol gyda'u set benodol o anghenion yn cael eu colli o bosibl yn y cynllunio ehangach, mwy generig hwn.

72 Ers diflaniad y partneriaethau plant a phobl ifanc, mae llawer o awdurdodau lleol yn datblygu timau amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol i gyflwyno ystod o wasanaethau mwy integredig ar lefel leol. Mae hyn yn cynnwys y potensial ar gyfer gweithio agosach rhwng gweithwyr proffesiynol a llwybrau cliriach i bobl ifanc at ystod ehangach o wasanaethau. Ceir gorgyffwrdd cynyddol rhwng staff cymorth proffesiynol mewn gwasanaethau awdurdodau lleol sy'n canolbwyntio ar gynorthwyo pobl ifanc. Lle caiff yr ystod gwasanaethau i bobl ifanc ei hehangu ar draws ffiniau proffesiynol trwy waith cydweithredol rhwng gwasanaethau awdurdodau lleol a gwasanaethau ieuenctid gwirfoddol gydag ysgolion, a'r ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol, mae'r gorgyffwrdd hwn yn codi manteision a risgiau. Er enghraifft, y perygl yw y gallai defnyddio modelau a methodolegau proffesiynol eraill ailgyfeirio gwasanaethau ieuenctid addysgol hyblyg at waith ataliol wedi'i dargedu'n fanylach gyda phobl ifanc. Fodd bynnag, o fewn y math hwn o waith y gall y model gwaith ieuenctid wneud cyfraniad gwerthfawr i bobl ifanc. Er enghraifft, mae gwasanaeth ieuenctid Abertawe wedi llwyddo i gyflwyno methodolegau gwaith ieuenctid i'r gwasanaethau targedig y mae'n ei darparu mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol lleol a gyda'r gwasanaethau cymdeithasol. O ganlyniad, mae'r partneriaid hynny yn mabwysiadu methodolegau gwaith ieuenctid yn gynyddol.

73 Yn Sir Benfro, mae tîm integredig o weithwyr proffesiynol yn gyfrifol ar y cyd am wasanaethau ieuenctid a gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Mae'r ymagweddau strwythuredig hyn at weithio ar y cyd yn helpu nodi ystod ehangach o ffactorau sy'n effeithio ar fywyd unigolyn ifanc, ac yn gwneud cysylltiadau effeithiol i'r unigolyn ifanc rhwng y cyrff amrywiol sy'n cynnig cymorth.

74 Gall y cysylltiadau â strwythurau lleol ar gyfer rheoli gwaith gyda theuluoedd a rhieni pobl ifanc fod yn fuddiol hefyd, ond mae'n gwyro oddi wrth ddehongli gwaith ieuenctid fel gwaith sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar weithio gyda'r unigolyn ifanc.

Mae perygl bod gwaith gyda'r teulu ehangach yn tynnu adnoddau i ffwrdd oddi wrth weithio gyda'r unigolyn ifanc, ac mae'n colli ffocws ar yr unigolyn.

**Astudiaeth achos 5: Mae Wrecsam yn ailgyfeirio ei wasanaethau cymorth ieuenctid**

Mae awdurdod lleol Wrecsam newydd gwblhau ailffurfio'i ddarpariaeth ieuenctid, gan gadw ystod eang o ddarpariaeth dargedig a mynediad agored.

Roedd y cyngor eisoes wedi mapio ystod y ddarpariaeth yn yr ardal; gan ystyried data demograffig, siarad â phobl ifanc a thrafod ailffurfio gwasanaethau cymorth ieuenctid ehangach.

Mae'r cyngor yn datblygu grŵp rhwydwaith gwasanaethau cymorth ieuenctid i gyfnerthu'r gweithio da mewn partneriaeth sy'n mynd ymlaen, gan gynnwys gyda grwpiau cymunedau lleol, cynghorau tref a chymuned, gwasanaethau iechyd a lles a dysgu yn y gwaith. Bydd y cyngor yn goruchwylio unrhyw drefniadau comisiynu.

Mae ystod y ddarpariaeth gwasanaethau ieuenctid yn cynnwys tîm gwaith ieuenctid ysbyty Inspire. Mae'r awdurdod lleol yn datblygu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc hŷn, gan gynnwys gweithio gyda'r partneriaethau dysgu oedolion i rannu ei hadnoddau.

Mae un cyngor cymuned wedi cytuno i ariannu pedair noson o waith ieuenctid yn ei ardal, gan gynnwys cymysgedd o waith allgymorth a gwaith stryd yn seiliedig ar adeiladu, a phrosiectau arbennig.

Mae gweithwyr ieuenctid lleol yn cysylltu â thîm cyfiawnder adferol yr awdurdod lleol o fewn y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid i reoli materion sy'n dod i'r amlwg mewn cymunedau.

Mae'r cyngor yn datblygu ei set ei hun o fesurau i gofnodi effaith y ddarpariaeth ac mae'n cynllunio i gyflwyno'r Marc Safon yn raddol ar gyfer gwaith ieuenctid ar draws y rhwydwaith gwasanaethau.

Erbyn hyn, ceir canfyddiad ar draws y gymuned fod y gwasanaeth ieuenctid yn fwy ystwyth o lawer ac yn gallu ymateb i anghenion pobl ifanc a'r gymuned.

## Cyllid ac adnoddau

75 Diffinnir gwasanaethau cymorth ieuenctid o dan ddeddfwriaeth addysg, ac ariennir gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol o wariant addysg drwy'r grant cynnal refeniw. Fodd bynnag, pan fydd gwasanaethau ieuenctid wedi'u lleoli yn rhywle arall mewn strwythur awdurdod lleol, mae llawer o gyfarwyddwyr addysg yn ei chael hi'n anodd cymhwyso goruchwyliaeth gorfforaethol briodol. Mae hyn oherwydd galwadau dybryd o wasanaethau addysg pwysig eraill.

76 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaeth cymorth ieuenctid eraill yn adrodd bod ansicrwydd ynghylch cyllid yn cyfyngu ar eu hyblygrwydd i flaenoriaethu gwaith yn eu hardal. Mae'n anodd barnu'r graddau y mae hyn yn digwydd o ystod bresennol yr arweiniad gan Lywodraeth Cymru, neu p'un a yw hyn adlewyrchu diffyg hyder ymhlith rheolwyr mewn awdurdod lleol a gwasanaethau cymorth ieuenctid y sector gwirfoddol. Fodd bynnag, mae'r asesiadau lleol a'r cynlluniau strategol sy'n cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol a'u partneriaid strategol wrth ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015) yn darparu sylfaen dda i fynd i'r afael â hyn. Mae darparwyr yn dadlau y dylai fod mwy o hyblygrwydd iddynt gyfeirio adnoddau at faterion a blaenoriaethau lleol, ar yr amod bod hyn yn parhau'n gyson â'r egwyddorion uwch sydd y tu ôl i'r polisi neu'r strategaeth genedlaethol ac y gellir cyfiawnhau'r adnoddau ariannol.

77 Mae pob awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol wrth ddarparu gwaith ar y cyd neu waith wedi'i gomisiynu. Yn gyffredinol, mae gweithio mewn partneriaeth yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol ar gyfer gwasanaethau i'r grŵp oed 0-25. Lle mae byrddau partneriaeth cyffredinol wedi'u cadw, gall yr aelodaeth fod yn eang a chynnwys partneriaid fel y sector gwirfoddol, yr heddlu, darparwyr addysg uwch ac addysg bellach. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddileu'r gofyniad am bartneriaethau plant a phobl ifanc, mae trefniadau ar gyfer cydweithredu yn anghyson ar hyd a lled Cymru.

78 Mae rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwaith prosiect gwasanaeth ieuenctid awdurdodau lleol yn gryf, trwy waith a chyllid a rennir. Fodd bynnag, caiff hyn effaith ar rychwant oed y gwasanaethau a ddarperir gyda gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol, gan ailgyfeirio adnoddau amser a staff oddi wrth waith ieuenctid i waith gyda phlant o dan 11 oed yn aml.

79 Mae llawer o ffrydiau cyllido, fel grantiau gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol, yn cynnwys targedau perfformiad a meini prawf gwario, sy'n canolbwyntio ar dargedau wedi'u diffinio'n fanwl, yn cynnwys cymwysterau a deilliannau cyflogaeth. Mae hyn yn golygu bod y gwasanaethau cymorth ieuenctid hynny sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc agored iawn i niwed yn wynebu anawsterau ychwanegol o ran sicrhau cyllid a chyfrif am y modd y maent wedi'i ddefnyddio. Mae hyn oherwydd bod angen llawer o waith cymorth ar y bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed yn aml, er mwyn eu helpu i symud i fan lle maent yn barod i ymgysylltu â dysgu neu gyflogaeth. Fodd bynnag, anaml y cwmpesir y gwaith cymorth hwnnw yn y meini prawf gwario, sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau a thargedau addysg.

80 Caiff nifer sylweddol o brosiectau gwasanaethau cymorth ieuenctid eu hariannu gyda chyllid yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n aneglur sut y bydd y prosiectau hyn yn parhau pan fydd y cyllid yn dod i ben yn 2020.

### Ymgynghori a chyfranogiad: rôl pobl ifanc mewn cynllunio gwasanaethau

81 Mae Ymestyn Hawliau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002) yn pennu y dylid ymgynghori â phobl ifanc ynglŷn â materion sy'n effeithio arnynt. Mae hawliau pobl ifanc i ymgynghori â hwy ac i gael dweud eu dweud yn y gwasanaethau cymorth ieuenctid a ddarperir wedi'u deall yn dda a'u parchu'n gyffredinol gan ddarparwyr.

82 Ar ddiwedd y 1990au ac yn negawd cyntaf yr 21ain ganrif, rhoddodd awdurdodau lleol bwyslais cryf ar ddatblygu fforymau ieuenctid lleol. Defnyddiwyd y fforymau hyn i ymgynghori â phobl ifanc yn lleol ar amrywiaeth o faterion, fel gwasanaethau hamdden a chwaraeon lleol, materion trafnidiaeth, mannau agored a diogelwch i bobl ifanc, ac i lywio cynllunio. Er bod llawer o fforymau lleol yn dal i fodoli, a bod ychydig o awdurdodau lleol yn hyrwyddo'r mudiad fforwm ieuenctid, mae'r pwyslais ar weithgarwch fforwm wedi lleihau.

83 Mae'r strategaeth ar gyfer ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â phlant a phobl ifanc yn aneglur. Terfynwyd cyllid Llywodraeth Cymru i'r Ddraig Ffynci, sef y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru, yn 2014. Bellach, mae'n ymgynghori ar gynlluniau i sefydlu senedd ieuenctid newydd. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori o'r enw 'Y Sgwrs Go Iawn' lle anogir pobl ifanc i roi'u barnau. Fodd bynnag, nid yw'r digwyddiadau yn rhai ar gyfer y grŵp oedran 11 i 25 yn unig, ac mae'n aneglur sut y caiff eu barnau eu hystyried.

84 Yn 2005, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ofyniad statudol i'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru sefydlu cyngor ysgol i ymgynghori â disgyblion. Dilynwyd Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2005) gan y Prosiect Cyfranogiad Disgyblion yn 2010. Mae Estyn wedi adrodd ar gyfranogiad disgyblion mewn ysgolion mewn adroddiad o'r enw Cyfranogiad Disgyblion: canllaw arfer orau (Estyn, 2016).

85 Mae rheolwyr awdurdodau lleol a darparwyr y sector cyhoeddus yn cynnwys pobl ifanc erbyn hyn wrth ddatblygu gwasanaethau mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol. Mae'r modelau ymgynghori a ddefnyddiwyd a lefel y cyfraniadau ac ehangder yr ymgynghori yn amrywio'n eang, o fodelau cynrychioliadol ffurfiol i fodelau'n seiliedig ar y cyfryngau cymdeithasol.

86 Yn gyffredinol, mae rheolwyr ac aelodau etholedig yn fwy tebygol o fod yn sicr eu bod yn ymgynghori'n dda o'r ffaith bod ganddynt ddigwyddiadau neu brosesau ar waith, yn hytrach na mynd ati i arfarnu'u heffaith. Mae staff gwaith ieuenctid proffesiynol yn gofyn mwy, ac maent yn fwy tebygol o geisio ffyrdd i sicrhau deialog barhaus gyda phobl ifanc yn unigol neu mewn grwpiau, ac i roi adborth ar ddeilliannau'r barnau y maent wedi'u rhannu.

87 Fodd bynnag, nid oes unrhyw gynllun strategol cyffredinol i roi cydraddoldeb mynediad i bobl ifanc at fecanweithiau ymgynghori er mwyn i'w barnau gael eu clywed, ac nid yw ansawdd ac effaith y prosesau i gipio'r barnau hyn yn cael eu mesur yn dda.

### Cynllunio hyfforddiant gweithwyr ieuenctid

88 Mae angen amrywiaeth o fedrau ar weithwyr proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid a fydd yn eu galluogi i ddelio â materion personol pobl ifanc a phryderon cenedlaethol. Mae enghreifftiau'n cynnwys adnabod masnachu pobl a mynd i'r afael â radicaleiddio drwy'r agenda Atal (Prydain Fawr, 2011), yn ogystal â chynorthwyo pobl ifanc drwy faterion pwysig eraill fel iechyd a dewisiadau ffordd o fyw, cael mynediad i addysg a chyflogaeth, a sicrhau cartrefi. Mae gweithwyr

ieuenctid yn gweithio mewn amgylcheddau sy’n amrywio o sefydliad rheoledig ysgol, i gysgu allan ar strydoedd dinasoedd, i ardaloedd gwledig anghysbell. Ar wahân i ddarparu cyfleusterau mynediad agored, mae rôl y gweithiwr ieuenctid bellach yn cynnwys addysgu dinasyddiaeth, addysg bersonol a chymdeithasol a llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion, a gweithio ar lefel stryd gyda phobl ifanc â materion iechyd meddwl difrifol, sy’n ddigartref neu’n weithwyr rhyw.

89 Mae model hirsefydlog gan Gymru ar gyfer hyfforddiant gwaith ieuenctid a elwir y ‘Llwybr Cydlynol ar gyfer hyfforddiant gweithwyr ieuenctid’. Ar hyn o bryd, nid yw agweddau ar hyfforddiant gweithwyr ieuenctid ar draws yr ystod cymwysterau yn y ‘Llwybr Cydlynol’ yn adlewyrchu rolau’r gweithiwr ieuenctid modern yn ddigon da. Nid yw’r hyfforddiant yn paratoi gweithwyr yn llawn i fodloni’r heriau o gynorthwyo pobl ifanc ag anghenion cymhleth yng nghymdeithas yr unfed ganrif ar hugain, a’u paratoi ar gyfer yr amrywiaeth eang o leoliadau lle cynhelir gwaith ieuenctid. Fodd bynnag, mae hyfforddiant gwaith ieuenctid yn pwysleisio’r gwerthoedd a’r egwyddorion craidd sy’n ffurfio’r sail ar gyfer gweithio mewn lleoliadau gwaith ieuenctid. Mae gweithwyr yn adrodd mai’r gwerthoedd craidd hyn sy’n eu cynnal mewn amgylchiadau anodd, heriol, a chynhyrfol weithiau.

90 Mae lleiafrif o weithwyr ieuenctid sy’n hyfforddi yn cael anhawster sicrhau lleoliadau gwaith priodol drwy eu prifysgolion a fydd yn rhoi’r profiadau sydd eu hangen arnynt i gyflawni’u rôl. Un enghraifft o leoliad perthnasol yw partneriaeth Prifysgol De Cymru gyda’r sector gwirfoddol yng Nghasnewydd, lle mae myfyrwyr gwaith ieuenctid yn gallu cael profiad o waith stryd go iawn gyda’r rheini yn y diwydiant rhyw. Ni chafodd anghenion gweithwyr ieuenctid am hyfforddiant a datblygiad parhaus o ansawdd uchel, ac anghenion y sector hyfforddiant gwaith ieuenctid, eu hadlewyrchu yn y strategaeth gwaith ieuenctid genedlaethol ddiweddaraf ar gyfer Cymru. Nid yw’n eglur p’un a eir i’r afael â’r anghenion hyn yn y strategaeth newydd.

91 Mae’r gofyniad am hyfforddiant lefel gradd a chofrestru gweithwyr ieuenctid gyda Chyngor y Gweithlu Addysg wedi arwain at welliant nodedig yn ansawdd rheolaeth a chyflwyniad gwaith ieuenctid ers yr arolygiadau diwethaf o bartneriaethau pobl ifanc yn 2012. Mae’r gweithwyr ieuenctid a gafodd eu harsylwi a’u cyfweld ar gyfer yr adroddiad hwn yn arddangos gwaith o ansawdd uchel gyda phobl ifanc, ac maent yn ymroddedig, yn bragmatig, ac yn ymarferol. Maent yn mynd ati i fyfyrio ynglŷn â’u perfformiad, ac yn gwbl ymwybodol o’r dylanwadau cymdeithasol a’r cyfyngiadau polisi ac ariannol ar gyflawni.

## Sicrhau ansawdd ac atebolrwydd

92 Mae’r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd gwasanaethau cymorth ieuenctid yn amrywio gryn dipyn. Nid oes digon o eglurder ynglŷn â’r modd y caiff gwasanaethau cymorth ieuenctid eu dwyn i gyfrif am y gwaith a wnânt. Mae ffocws pennaf atebolrwydd i’r rheiny sy’n darparu cyllid yn bennaf, ac yn aml yn seiliedig ar niferoedd yn hytrach na deilliannau.

93 Ers Ymestyn Hawliau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002), ni chafwyd eglurder gwirioneddol gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â beth mae’n dymuno ei gyflawni o’i pholisïau, strategaeth a chyllid. Mae’n aneglur hefyd pa rôl sydd gan y rheiny sy’n cyflawni ar lefel leol o ran penderfynu sut y caiff blaenoriaethau eu bodloni a’u mesur. Mae’r polisïau gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud ag ieuenctid a ddatblygwyd gydag agenda ‘hawl’ ar ddechrau’r 2000au, a pholisïau sy’n fwy diweddar, yn cael eu mesur yn wahanol i gyd. Mae’n anodd mapio’r deilliannau disgwyliedig ar gyfer pobl ifanc ar draws y rhain. Mae’r gwahaniaethau polisi hyn yn lleihau gwybodaeth hefyd am effaith gwasanaethau ar unigolion neu grwpiau o bobl ifanc, ac yn rhwystro datblygiad effaith gyffredin ac effeithiol neu fesurau deilliannau.

94 Mae diffyg cyfathrebu ystyrlon ac atebolrwydd uniongyrchol rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr gwasanaethau cymorth ieuenctid am y gwaith a wnânt a’r deilliannau a gyflawnir ganddynt (ar gyfer pobl ifanc a gyda phobl ifanc), ac effaith y gwasanaethau hyn ar bobl ifanc. Er gwaethaf ymgynghori hir gyda darparwyr gwasanaethau cymorth ieuenctid, ni chafwyd unrhyw fesurau effeithiol wedi’u cytuno’n genedlaethol ar gyfer y ddarpariaeth hon, ac ni chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad manwl o’u heffaith a’u cynnyrch.

95 Ceir dadl ynghylch mesur effaith gwaith ieuenctid. Mae hyn yn cynnwys yr hen ddadl mai dim ond flynyddoedd wedi iddo gael ei wneud y gellir mesur effaith gwaith ieuenctid pan fydd pobl ifanc yn aeddfedu ac yn gwireddu effaith y cymorth a’r profiadau a gawsant pan oeddent yn iau. Nid yw gweithwyr proffesiynol wedi canfod ffordd effeithiol eto o fesur effaith polisïau’r llywodraeth nac i ddal darparwyr yn atebol am gyllid, wrth farnu effeithiolrwydd ymyriadau ar y bobl ifanc eu hunain yn ogystal.

96 Nid yw archwiliad blynyddol Llywodraeth Cymru o wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn cipio’n ddigon da ystod y gwasanaethau a’r mathau o ddarpariaeth a gyflwynir mewn ardal leol nawr, drwy wasanaeth ieuenctid awdurdod lleol a’i bartneriaid. Nid yw’r archwiliad yn effeithiol o ran dwyn darparwyr ac awdurdodau lleol i gyfrif am yr holl waith a wnânt, gan nad yw’n nodi ystod gwaith gwasanaethau cymorth ieuenctid y mae gwasanaeth ieuenctid awdurdod lleol yn rhan ohono. Nid yw’r meini prawf a ddefnyddir i gipio data yn yr archwiliad wedi’u diffinio’n ddigon tynn i sicrhau cymharu dilys rhwng awdurdodau lleol, sut y cânt adnoddau, a beth y dywedant eu bod yn ei ddarparu. Nid yw ffocws yr archwiliad yn cynnwys mathau o waith ieuenctid, sydd y tu hwnt i wasanaeth ieuenctid traddodiadol yr awdurdod lleol fel gwaith yn ymwneud â chartrefu pobl ifanc, gwaith a gyflawnir trwy dimau troseddau ieuenctid a gwaith dargyfeiriol arall, a phrosiectau mewn ysgolion.

97 Y tu allan i'r grant setliad refeniw a grantiau llai eraill y llywodraeth ar gyfer gweithgareddau gwaith ieuenctid, caiff y rhan fwyaf o wasanaethau cymorth ieuenctid (a ddarperir gan y sector statudol a'r sector gwirfoddol) eu hariannu gan grantiau'r Undeb Ewropeaidd neu gyllid elusennol fel gan Plant mewn Angen a'r Loteri Genedlaethol. Mae pob prosiect yn adrodd i feini prawf penodol y grant hyd yn oed os yw'r grant ond yn ariannu rhan o'r gwaith gyda phobl ifanc. Lle mae cyllid yn mynnu prawf o gymwysterau, gall hyn fod yn anodd wrth weithio gyda phobl ifanc sydd â rhwystrau niferus rhag dysgu, yn enwedig yn y camau ymgysylltu cynnar. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd yn ofynnol dangos lefel medrau uwch i gyfrif am gyllid. Mae darparwyr yn dadlau y dylai fod mwy o hyblygrwydd iddynt gyfeirio adnoddau at faterion a blaenoriaethau lleol, cyhyd â bod hyn yn aros yn gyson â'r egwyddorion uwch y tu ôl i'r polisi neu strategaeth genedlaethol. Fodd bynnag, mae darparwyr ar lefel leol yn aml yn canfod ffyrdd arloesol i fodloni gofynion cyllido.

98 Er mwyn cynnal rhyw lefel o ddarpariaeth yn y gymuned, mae llawer o awdurdodau lleol wedi ariannu sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu'r math hwn o waith a chynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'n aneglur o hyd p'un a yw trefniadau awdurdod lleol y tu ôl i'r math hwn o ddarpariaeth ar gontract yn destun prosesau sicrhau ansawdd a chynllunio strategol trwyadl.

99 Mae Marc Safon Llywodraeth Cymru yn defnyddio hunanasesu ac asesu cymheiriaid i yrru gwelliant. Mae lleiafrif o awdurdodau lleol wedi defnyddio'r Marc Safon ar gyfer gwaith ieuenctid fel y sail ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio. Fodd bynnag, mae'r nifer yn cynyddu'n raddol. Lle mae awdurdod lleol wedi ymgymryd â'r Marc Safon hwn, maent yn gallu dangos tystiolaeth yn well o effaith ac ansawdd y gwasanaethau a ddarparant. Mae nifer y cyrff gwirfoddol sy'n cyfranogi yn y system yn cynyddu. Mae'r rhwydwaith gwasanaethau cymorth ieuenctid yn dymuno rhoi'r defnydd o'r Marc Safon ar waith fesul cam ar draws darparwyr. Fodd bynnag, er bod y broses yn cefnogi hunanarfarnu da, nid yw'n arwain at atebolrwydd allanol cadarn.

100 Nid yw i ba raddau y mae gwasanaethau cymorth ieuenctid yn cyflawni hawliau pobl ifanc neu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc arfer eu hawliau i gyfranogi wedi'i mesur yn ddigon gweithredol yn gyffredinol gan wasanaethau, rheolwyr, neu gynllunwyr strategol.

# Atodiad 1: Yr hanes, y meddwl a'r ddeddfwriaeth y tu ôl i'r ddarpariaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid yng Nghymru

## Rhesymwaith ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc

Mae cymdeithas wedi bod yn pryderu ers milenia ynghylch pobl ifanc, eu her i'r gymuned ehangach a'u heffaith arni, a sut gellid mynd i'r afael â'u hanghenion. Gellir olrhain pryderon wedi'u dogfennu ynghylch ymddygiad ac addysg gymdeithasol pobl ifanc yn ôl i gyfnod y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Bu tensiwn ers tro byd rhwng ystyried pobl ifanc yn broblem i'w hatal a chydnabod eu hawliau fel unigolion.

Mae'r angen i fuddsoddi mewn pobl ifanc fel sylfeini cymdeithas yn mynd law yn llaw â datblygu polisi addysg yn y Deyrnas Unedig. Ar ôl cyflwyno addysg dorfol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae gwasanaethau ieuenctid neu weithgareddau i addysgu ac ehangu datblygiad pobl ifanc y tu allan i addysg ffurfiol wedi bod yn fater i ddeddfwriaeth addysg yn gyffredinol. Yn yr ugeinfed ganrif, argymhellodd Pwyllgor Thompson ddarparu 'addysg gymdeithasol fel gwasanaeth cyffredinol i bob unigolyn ifanc'. (Yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth, 1982)

Ym 1992 dywedodd yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol y dylai gwaith ieuenctid fod yn: 'addysgol, cyfranogol, grymusol, anffurfiol, ymatebol ac yn seiliedig ar berthnasoedd sicr a dylai ddarparu gwybodaeth, cyngor a chwnsela i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, gyda'r rheini yn y grŵp oed 13 i 19 yn flaenoriaeth' (Yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol, 1992).

Defnyddiodd Asiantaeth Ieuenctid Cymru yr egwyddorion hyn i arloesi gyda'r cwricwlwm cenedlaethol Cymreig cyntaf ar gyfer gwaith ieuenctid (Partneriaeth Gwaith Ieuenctid Cymru, 1990), law yn llaw ag arweiniad ar safonau ar gyfer cyflawni yn 2002. Cafodd Asiantaeth Ieuenctid Cymru ei hymgorffori yn Llywodraeth Cymru yn 2006.

Nododd y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid (2012) mai diben allweddol gwaith ieuenctid yw:

'Galluogi pobl ifanc i ddatblygu mewn ffordd gyfannol, gan weithio gyda hwy i hybu eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, i'w galluogi i feithrin eu llais, dylanwad a'u lle mewn cymdeithas a chyrraedd eu potensial llawn'. (tud.4).

## Deddfwriaeth a pholisi yn ymwneud â gwasanaethau cymorth ieuenctid

Parhaodd gwaith ieuenctid a'r dulliau amrywiol o'i gyflwyno, gwasanaethau cymorth ieuenctid a'r gwasanaeth ieuenctid yn faterion polisi addysg o dan y llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru. Mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (Prydain Fawr, 2000) yn ffurfio'r sail ddeddfwriaethol bresennol ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid. I baratoi ar gyfer y ddeddf hon, roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymgynghori ynghylch gwasanaethau i gynorthwyo pobl ifanc, a chyhoeddodd gyfarwyddiadau drafft ac arweiniad yn 2001.

Daeth yr arweiniad hwn wedyn yn Ymestyn Hawliau, a gyhoeddwyd yn 2002, a amlinellodd yr egwyddorion, polisi ac arweiniad ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002). Mae'r polisi hwn yn cynnwys 10 o hawliadau cyffredinol ar gyfer pobl ifanc yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r arweiniad yn mynnu bod gwasanaethau cymorth ieuenctid ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed yn cael eu cyflwyno gan amrywiaeth o asiantaethau, gan gynnwys y sector gwirfoddol, drwy bartneriaethau pobl ifanc. Seiliwyd y partneriaethau yn fras ar ardaloedd daearyddol awdurdodau lleol. Mae polisi a deddfwriaeth yng Nghymru yn diffinio pobl ifanc yn gyffredinol fel y rhai rhwng 11 a 25 oed, gyda phwyslais ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid ar 14-19 oed.

Yn 2002, datblygodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei saith nod craidd fel y sylfeini ar gyfer sicrhau gweithredu polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 0-25 oed. Fe wnaeth y Fframwaith ar gyfer Partneriaeth ehangu'r polisi cychwynnol ar gyfer gwasanaethau pobl ifanc i'w cyflwyno trwy bartneriaethau pobl ifanc a chyflwynodd bartneriaethau plant a phobl ifanc yn cwmpasu'r oedrannau 0-25 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2000).

Yn 2004, penderfynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, pa bryd bynnag yr oedd yn datblygu polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc, y byddai'n gwneud hynny gyda'r nod o gyflawni iddynt yr hawliau, a bennir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011b) yn mynnu bod gweinidogion Llywodraeth Cymru'n ystyried hawliau plant a phobl ifanc wrth ystyried deddfwriaeth a pholisi. Cryfhawyd yr ymagwedd hon ymhellach gan Gynllun Hawliau Plant 2014 (Llywodraeth Cymru, 2014b) drwy amlinellu'r trefniadau i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r mesur.

Yn 2013, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, sy'n mynnu ymagwedd fwy targedig at wasanaethau i bobl ifanc (Llywodraeth Cymru, 2013a). Nod yr arweiniad yw lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) trwy ddarparu cymorth i bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio a chryfhau eu medrau cyflogadwyedd.

Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Raglen ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, sy'n cyfuno deddfwriaeth a pholisïau i gynorthwyo plant a phobl ifanc o fewn ei phrif Raglen Lywodraethu (Llywodraeth Cymru, 2015a).

Yn 2015, i bob pwrpas, fe wnaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015), roi terfyn ar y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc drwy eu cynnwys yn y Byrddau Gwasanaethau Lleol. Daeth y byrddau hyn yn eu tro yn Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol, a dechreuodd partneriaethau lleol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau cymorth ieuenctid ddiflannu.

Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-2018 a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn ailddatgan ymrwymiad i waith ieuenctid (Llywodraeth Cymru, 2014a). Mae'n datgan:

'Cynigir darpariaeth gwaith ieuenctid drwy wasanaethau ieuenctid. Mae gwaith ieuenctid yn rhan annatod o wasanaethau cymorth ieuenctid sy'n ceisio sicrhau bod

pob person ifanc rhwng 11 a 25 oed yn cael y gwasanaethau, y cymorth a'r profiadau sydd eu hangen arnynt er mwyn cyflawni eu potensial. Yng Nghymru, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn hawl sylfaenol, sy'n agored i bob person ifanc. Drwy Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 123(1), mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid, sicrhau eu bod yn cael eu darparu neu gymryd rhan yn y gwaith o'u darparu' (Llywodraeth Cymru, 2014, tud.5).

Yn 2015 cyflwynodd Llywodraeth Cymru Farc Safon ar gyfer gwaith ieuenctid (Llywodraeth Cymru, 2015b), ac mae Siarter 2016 ar gyfer gwaith ieuenctid yn pennu y gall pobl ifanc ddisgwyl cael mynediad da at wasanaethau drwy'r Gymraeg a'r Saesneg (Llywodraeth Cymru, 2016).

## Deddfwriaeth a pholisi ehangach

Mae **Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-18** (Llywodraeth Cymru, 2014a) yn anelu at sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol ar gyfer pobl ifanc 11 i 25 oed.  Mae'r strategaeth yn adlewyrchu agendâu Ewropeaidd ar gyfer integreiddio pobl ifanc yn y gymdeithas, a'u cydraddoldeb mynediad at addysg a'r farchnad lafur.  Dywed y strategaeth y dylai camau gweithredu Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid gefnogi chwe chanlyniad strategol:

- Mae darpariaeth gwaith ieuenctid ar gael i bob person ifanc yng Nghymru ac yn gweithredu fel gwasanaeth ataliol effeithiol, gan helpu pobl ifanc i ymgysylltu a datblygu ym maes addysg a hyfforddiant er mwyn eu paratoi ar gyfer byd gwaith ac, yn fwy cyffredinol, bywyd fel oedolion
- Defnyddir darpariaeth mynediad agored yn effeithiol i ymgysylltu â phobl ifanc y mae angen cymorth mwy penodol arnynt a'u cyfeirio at y cymorth priodol
- Mae darpariaeth gwaith ieuenctid yn rhyngweithio'n effeithiol â darparwyr addysg ffurfiol er mwyn helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc a lleihad parhaus yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- Caiff darpariaeth gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol ei chysoni a'i chyflwyno i bobl ifanc mewn cynnig cydlynol
- Mae darpariaeth gwaith ieuenctid yn cyfrannu'n strategol at Strategaeth y Gymraeg ac yn creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau cymdeithasol
- Mae darpariaeth gwaith ieuenctid yn dangos sut mae'n cefnogi blaenoriaethau trawslywodraethol (gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, addysg, iechyd a lles, trechu tlodi)

Mae'r Strategaeth yn pennu chwe nod strategol:

- Cyflwyno Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid, sy'n darparu sail gadarn ar gyfer atebolrwydd, meincnodi a chanlyniadau
- Gwella ansawdd y ddarpariaeth gwaith ieuenctid a gynigir i bobl ifanc ledled Cymru
- Cynyddu cyfran y gweithwyr ieuenctid sydd â chymwysterau proffesiynol

- Sefydlu fforwm i roi cyngor i Weinidogion ar roi'r strategaeth ar waith, datblygu trafodaethau strategol ar gyflawni ac adolygu tystiolaeth o effaith a chwmpas darpariaeth gwaith ieuenctid yn genedlaethol
- Mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gael achrediad a gydnabyddir yn genedlaethol er mwyn eu helpu i ddatblygu a gwella eu cyflogadwyedd
- Mwy o bobl ifanc yn cael mynediad i addysg gwaith ieuenctid heb fod yn ffurfiol ac addysg anffurfiol

**Mae Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru** (Llywodraeth Cymru, 2016) yn amlinellu beth gall pobl ifanc ei ddisgwyl gan wasanaethau ieuenctid ledled Cymru. Yn ei dogfen Datblygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru'n datgan y bydd gan bob unigolyn ifanc hawl i gael mynediad rhwydd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg at:

- fannau cyfarfod diogel, cynnes a chyflawn, sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd parhaus, gweithgareddau hamdden cyffrous ym meysydd celf a chwaraeon, a phrofiadau newydd a fydd yn ehangu eu gorwelion
- cyfleoedd i gyfranogi mewn antur awyr agored a phrofiadau preswyl a rhyngwladol
- cyfleoedd i gyfranogi yn y gwaith o wneud penderfyniadau trwy strwythurau anffurfiol a ffurfiol i ymgysylltu â phobl ifanc yn lleol ac yn genedlaethol (e.e. meiri ifanc, cynghorau ieuenctid a'r Senedd): dylai trefniadau o'r fath gyfeirio'n eglur at safonau cyfranogi; dylent fod yn seiliedig ar egwyddorion CCUHP; a dylent geisio ennyn diddordeb pobl ifanc yn y gwaith o lywio a chraffu ar y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt
- gwybodaeth, arweiniad a chymorth ynghylch materion sy'n eu pryderu, yn cynnwys cyflogaeth, tai a lles meddyliol; gellir defnyddio'r gwasanaeth trwy gyfrwng cyfryngau digidol a thrwy law oedolion dibynadwy a hyfforddedig
- anogaeth i ddysgu rhagor am eu diwylliant eu hunain a diwylliannau pobl eraill
- darpariaeth gydgysylltiedig gan weithwyr ieuenctid ym mhob ysgol uwchradd a choleg, ymestyn y 'cynnig i ddisgyblion' ac felly cyfoethogi'r cwricwlwm ffurfiol a chynorthwyo â datblygiad personol a chymdeithasol
- cyfleoedd i fod yn ymgyrchwyr dinesig e.e. trwy wirfoddoli
- cydnabod a /neu achrediad ar gyfer eu cyflawniadau o ran datblygiad personol a chymdeithasol mewn ysgolion a cholegau ac yn y gymuned hefyd

Mae **Strategaeth Tlodi Plant** Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015c) yn atgyfnerthu nod Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant erbyn 2020.

**Cymunedau yn Gyntaf** (Llywodraeth Cymru, 2017a): rhaglen a ariennir gan gyllid grant o £31m y flwyddyn a lansiwyd yn 2001. Mae'r rhaglen yn darparu cyllid ar gyfer Cyrff Cyflawni Arweiniol i gynorthwyo pobl o bob oed mewn cymunedau difreintiedig trwy dri amcan strategol: cymunedau ffyniannus, cymunedau sy'n dysgu, a chymunedau iachach. Ail-lansiwyd Cymunedau yn Gyntaf yn 2012 i roi ffocws llymach iddo ar helpu pobl i mewn i waith. Bydd y rhaglen yn dod i ben erbyn Mawrth 2018.

**Teuluoedd yn Gyntaf** (Llywodraeth Cymru, 2017b): ei nod yw gwella deilliannau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd trwy ganolbwyntio ar ymyrraeth, atal a darparu cymorth i deuluoedd cyfan yn hytrach nag unigolion, trwy waith amlasiantaeth lleol.

**Cefnogi Pobl**: mae Llywodraeth Cymru yn darparu £124.4m ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl (Llywodraeth Cymru, 2017c) bob blwyddyn. Mae'r rhaglen yn darparu cymorth yn gysylltiedig â thai i bobl agored i niwed, ac yn cynorthwyo dros 57,000 o bobl bob blwyddyn.

**Polisi Llwybrau Dysgu 2010**: (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2004): ei nod yw trawsnewid dysgu ar gyfer ar gyfer pobl ifanc 14 - 19 oed trwy ganolbwyntio ar anghenion dysgwyr unigol, ac mae'n cyflwyno Anogwyr Dysgu i gynorthwyo pobl ifanc yn eu dysgu.

**Mae Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar addysg uwch** (Llywodraeth Cymru, 2013) yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch hyd at 2020. Mae blaenoriaethau'n cynnwys arloesi a thwf economaidd; gwella cyflogadwyedd; datblygu cysylltiadau rhyngwladol; hyrwyddo symudedd myfyrwyr; ehangu mynediad i addysg uwch; cydgysylltu addysg ôl-16; gwella profiad y myfyriwr; datblygu modelau cyflwyno newydd; a chyflawni mewn partneriaeth â myfyrwyr.

**Dyfodol Llwyddiannus** (Donaldson, 2015) Ym Mawrth 2014, cynhaliodd yr Athro Graham Donaldson adolygiad sylfaenol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu o'r cyfnod sylfaen hyd at gyfnod allweddol 4. Mae ei adroddiad yn pennu agenda radical ar gyfer diwygio'r cwricwlwm ysgol. Mae argymhellion adroddiad Donaldson ar gyfer gwelliant o ran y modd y caiff plant eu haddysgu a'u hasesu yn ysgolion Cymru yn cynnwys modelau dysgu drwy brofiad tebyg i'r rheiny sy'n sail i waith ieuenctid.

**Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl 2017-2021** (Llywodraeth Cymru, 2017d) Mae'r cynllun gweithredu hwn yn canolbwyntio ar godi safonau i bawb, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad, a chyflwyno system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol a hyder cyhoeddus.

## Cyllid

Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu gwaith ieuenctid a gwasanaethau cymorth ieuenctid drwy'r **Grant Cynnal Refeniw** i awdurdodau lleol. Nid yw'r cyllid hwn yn cael ei neilltuo ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid, ac yn aml caiff ei wario ar wasanaethau eraill a allai fod o fantais uniongyrchol i bobl ifanc neu beidio. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu grantiau ychwanegol ar gyfer gwaith ieuenctid:

- **Grant Cymorth y Strategaeth Gwaith Ieuenctid (mae'n dod i ben ym Mawrth 2018)** Arian i awdurdodau lleol i gefnogi darpariaeth mynediad agored.
- **Grant y Sefydliad Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol.** Mae sefydliadau gwirfoddol yn cystadlu am y cyllid hwn.
- **Cyllid grant i gynorthwyo Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS)**

**Cyllid Cymunedau yn Gyntaf.** Mae’n gwneud cyfraniad pwysig at ariannu llawer o brosiectau gwasanaethau cymorth ieuenctid, ac mae’n yn dod i ben yn 2018. Er bod ychydig o brosiectau wedi sicrhau cyllid cyfyngedig y tu hwnt i 2020, mae llawer o brosiectau mewn perygl difrifol erbyn hyn.

Cyfanswm yr incwm ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru yn 2016-2017 oedd £31.3 miliwn. Mae’r incwm hwn wedi lleihau’n nodedig dros y blynyddoedd diwethaf. Caiff y mwyafrif o’r cyllid hwn ei wario ar staff.

Mynegodd Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn 2016 bryder ynghylch y gostyngiad mewn cyllid ar gyfer gwaith ieuenctid, ac mae adolygiad o gyllid yn cael ei gynnal yn awr. I ymateb i hynny, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi ymrwymo i adolygiad o gyllid gwasanaethau ieuenctid.

Mae toriadau diweddar i gyllid wedi arwain at ostyngiad yn niferoedd y staff gwaith ieuenctid a rheolwyr gwaith ieuenctid sy’n gweithio mewn awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhwng 2014-2015 a 2015-2016, fe wnaeth niferoedd y staff cyflwyno ostwng 19% (cyfwerth ag amser llawn).

# Atodiad 2: Data demograffig ar gyfer pobl ifanc

Cyfanswm poblogaeth Cymru ar hyn o bryd yw 3.1 miliwn a disgwylir iddo gynyddu 5% yn 2039 i 3.3 miliwn (Llywodraeth Cymru, 2015d; Llywodraeth Cymru, 2018a).

**Tabl 1: Poblogaeth ac amcanestyniadau poblogaeth pobl ifanc yng Nghymru**

| Ystod Oedran | Poblogaeth 2016 (%) | Poblogaeth 2016 | Amcanestyniad poblogaeth 2039 | Newid % rhagamcanol yn 2039 |
|---|---|---|---|---|
| **11-25** | **18%** | **568,000** | **569,000** | **Dim newid** |
| 11-18 | 9% | 274,000 | 295,000 | plws 7% |
| 19-25 | 9% | 294,000 | 275,000 | minws 7% |

Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 2015d a Llywodraeth Cymru, 2018a

Pobl ifanc 11 i 25 oed yw tua 18% o boblogaeth Cymru, gyda 9% o'r ystod oed 11-18 a 9% o'r ystod oed 19-25. Disgwylir i ganran y rhai 11 i 18 oed gynyddu, gyda chynnydd rhagamcanol o 7% erbyn 2039.

**Tabl 2: Nifer y dysgwyr yng Nghymru, 2017**

| Carfan | Ystod oed | Nifer y bobl ifanc |
|---|---|---|
| Dysgwyr yn yr ysgol | Pob oed ysgol | 467,000 |
| | 11-15 | 158,000 |
| | 16 a hŷn | 26,000 |
| Dysgwyr mewn addysg bellach | 16-24 | 64,000 |
| Dysgwyr mewn dysgu yn y gwaith | 16-24 | 28,000 |
| Heb fod mewn addysg, cyflogaeth, na hyfforddiant | 16-18 | 9,000 (9%) |
| | 19-24 | 35,000 (14%) |

Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r fil agosaf

Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 2017e, 2018b, 2018c, a 2018d

- Yn 2017, roedd bron i 6,000 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2017f)

- Mae 88,000 o bobl ifanc 11 i 25 yn manteisio ar ddarpariaeth ieuenctid awdurdod lleol yng Nghymru; 16% o'r holl rai 11 i 25 oed (Llywodraeth Cymru, 2017g)

- Mae anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 105,000 o blant oed ysgol (23%) (Llywodraeth Cymru, 2017h)

- Mae dros 63,000 o blant oed ysgol yn rhugl yn y Gymraeg (16%) (Llywodraeth Cymru, 2017i)

- Ym Mawrth 2017, cafodd 25,700 o bobl ifanc o dan 18 eu dedfrydu yn y llysoedd troseddol yng Nghymru a Lloegr, 2,200 yn llai o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2018)

## Atodiad 3: Arolwg o Wasanaethau cymorth ieuenctid i bobl ifanc

Cynhaliodd Estyn arolwg ar-lein o bobl ifanc ynglŷn â'r gwasanaethau a dderbyniant. Cefnogwyd a hyrwyddwyd y gwaith o ddatblygu'r arolwg hwn gan Plant yng Nghymru drwy grwpiau ffocws. Roedd yr arolwg yn cynnwys cymysgedd o atebion unigol a chwestiynau agored, ac roedd ar agor rhwng Ionawr a Mehefin 2017.

Fe wnaeth cyfanswm o 230 o bobl ifanc ledled Cymru ymateb. Roedd ychydig dros 50% o'r ymatebwyr rhwng 15 a 19 oed, ar roedd 23% rhwng 20 a 25 oed. Roedd dros 61% o'r ymatebwyr yn ferched, a 38% yn fechgyn. Nododd 210 o'r ymatebwyr eu bod yn dod o grŵp ethnig gwyn, ac roedd 10% yn siaradwyr Cymraeg. Mae dros 70% mewn addysg neu hyfforddiant ac mae 17% mewn cyflogaeth neu'n gwirfoddoli. Dim ond 12% oedd yn ystyried bod ganddynt anabledd, a nododd 18% bod ganddynt anghenion addysgol arbennig.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos na fydd y mwyafrif o'r bobl a ymatebodd yn cael eu cynnwys mewn llawer o'r mathau o wasanaethau cymorth ieuenctid targedig a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad hwn. Mae'n galonogol iawn fod y bobl ifanc a ymatebodd yn derbyn amrywiaeth o gymorth gyda materion fel teimladau, pryderon, ac iechyd meddwl, hunan-barch, perthnasoedd, iechyd rhywiol a chymorth emosiynol.

Mae dros 43% o'r is-set o bobl ifanc sydd wedi derbyn gwasanaethau cymorth ieuenctid wedi cael cyfleoedd i wirfoddoli, ac mae bron i 40% wedi cael cyfleoedd dinasyddiaeth, gwneud penderfyniadau neu gyfleoedd i fynegi'u barn. O ystyried y toriadau cyllid i wasanaethau cymorth ieuenctid cyffredinol yn seiliedig ar weithgareddau, mae'n ddiddorol fod 56% wedi mynychu clybiau ieuenctid, bod 38% wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored a bod 42% wedi bod ymwneud â gweithgareddau drama a cherdd. Er gwaethaf cryn ymdrech ac adnoddau a gyfeiriwyd at yr agenda cyflogaeth, dim ond 27% sydd wedi cael help gyda medrau cyflogadwyedd. Nododd nifer o ymatebion ysgrifenedig bod hwn yn faes y byddent yn hoffi derbyn mwy o gymorth ynddo.

Roedd mwyafrif y bobl ifanc yn teimlo bod y gwasanaethau a gawsant yn dda neu'n rhagorol (53% rhagorol), a byddai 74% yn argymell gwasanaethau i bobl ifanc eraill. Dim ond 14% adroddodd ei bod yn anodd cael cymorth gerllaw lle maent yn byw.

Teimlai mwyafrif o ymatebwyr yr ymgynghorwyd â nhw'n ystyrlon ynglŷn â gwasanaethau. Mae'r fantais o gael gweithwyr ieuenctid yn eu sefydliad gan dros hanner yr ymatebwyr sy'n mynychu ysgol neu goleg. Mae pobl ifanc yn disgrifio bod ystod eang o wasanaethau'n cael eu darparu gan y gweithwyr hyn.

Mewn ymateb i'r cwestiwn ynglŷn â pha wasanaethau y byddai pobl ifanc yn dymuno eu bod ar gael, roedd yr atebion, yn gyffredinol, yn ymwneud ag eisiau mwy o fynediad neu fynediad gwell at y gwasanaethau sydd ar gael. Fodd bynnag, roedd ceisiadau am fwy o wasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau iechyd rhywiol fel y Cerdyn-C, help gyda thrafnidiaeth, cyngor ariannol a chyngor ar swyddi, mynediad i gampfa a chyfleusterau chwaraeon, a mwy o glybiau ieuenctid ar agor am oriau hwy.

O’r nifer fach o bobl ifanc a ymatebodd fel rhai nad oedd wedi defnyddio unrhyw fath o wasanaeth cymorth ieuenctid (28), dywedodd 71% nad oeddent yn gwybod pa gymorth oedd ar gael iddynt. Er bod 52% yn gwybod ble i fynd i glybiau ieuenctid a bod 50% yn gwybod am weithgareddau gwirfoddoli, nid oedd 70% yn gwybod sut i gael help gyda medrau cyflogadwyedd, nid oedd 78% yn ymwybodol o gyfleoedd i gyfranogi mewn dinasyddiaeth a gwneud penderfyniadau, neu weithgareddau a oedd yn eu galluogi i fynegi’u barn, ac nid oedd 85% yn gwybod sut i gael help gyda dyledion neu bryderon ariannol. Yn bryderus, nid oedd 89% yn gwybod sut i gael help gyda materion hunan-barch, 82% gyda pherthnasoedd, a 70% gyda chamddefnyddio sylweddau ac alcohol. O’r grŵp hwn, ni ofynnwyd erioed i 75% am eu barn ynglŷn â’r ystod gwasanaethau sydd ar gael iddynt, a dim ond 7% yr holwyd eu barn am wasanaethau.

Er mai ciplun bach yn unig yw hwn o brofiadau a barnau pobl ifanc yng Nghymru, mae’r ymatebion yn cefnogi’r materion a drafodwyd yn yr adroddiad hwn.

## Sail y dystiolaeth

**Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio:**

- ymchwil ddesg i amrywiaeth o bolisïau a deddfwriaeth
- cyfarfodydd gyda phrif weithredwyr, swyddogion corfforaethol, swyddogion addysg, rheolwyr gwaith ieuenctid a staff gwaith ieuenctid rheng flaen awdurdodau lleol
- cyfarfodydd gyda CWVYS, ac aelodau o grŵp Prif Swyddogion CLlLC
- cyfarfod gyda darparwr hyfforddiant gwaith ieuenctid mewn addysg uwch
- ymweliadau ag amrywiaeth eang o ddarpariaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid ar hyd a lled Cymru o'r sector awdurdod lleol, sector gwirfoddol, ysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith
- sgyrsiau gyda phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau yr ymwelwyd â nhw
- canlyniadau holiaduron gan 230 o ymatebwyr i arolwg pobl ifanc ar-lein a gynhaliwyd rhwng Ionawr a Gorffennaf 2017

**Ymwelodd Estyn â'r cyrff canlynol, a'u cyfweld:**

Awdurdodau lleol:

- gwasanaeth ieuenctid Merthyr Tudful; gwasanaeth ieuenctid Blaenau Gwent; gwasanaeth ieuenctid Sir Fynwy

- uwch reolwyr addysg, rheolwyr gwasanaethau ieuenctid, gweithwyr ieuenctid a darpariaeth amrywiol awdurdod lleol Abertawe; Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Addysg, uwch reolwyr addysg, rheolwyr gwasanaethau ieuenctid, gweithwyr ieuenctid a darpariaeth amrywiol awdurdod lleol Ceredigion; Prif Weithredwr, uwch reolwyr, rheolwyr gwasanaethau ieuenctid, gweithwyr ieuenctid a darpariaeth amrywiol awdurdod lleol Powys; Prif Weithredwr, uwch reolwyr, rheolwyr gwasanaethau ieuenctid, gweithwyr ieuenctid a darpariaeth amrywiol awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf; Prif Weithredwr, uwch reolwyr, rheolwyr gwasanaethau ieuenctid awdurdod lleol Conwy; Prif Weithredwr, uwch reolwyr, rheolwyr gwasanaethau ieuenctid, gweithwyr ieuenctid a darpariaeth amrywiol awdurdod lleol Wrecsam; Prif Weithredwr, uwch reolwyr, rheolwyr gwasanaethau ieuenctid, gweithwyr ieuenctid a darpariaeth amrywiol awdurdod lleol Caerdydd; Prif Weithredwr, uwch reolwyr, a rheolwyr gwasanaethau ieuenctid awdurdod lleol Caerffili; rheolwyr gwasanaeth troseddau ieuenctid, rheolwyr gwasanaethau ieuenctid, gweithwyr ieuenctid a darpariaeth amrywiol Sir Benfro

Sefydliadau

- CLlLC; CWVYS; grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid; Coleg Caerdydd a'r Fro; Coleg Sir Benfro

Gwasanaethau cymorth ieuenctid

- Grŵp Arolwg Ymestyn Hawliau Rhondda Cynon Taf; Siop Wybodaeth Wrecsam; Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig; canolfan ddysgu Itec Training Solutions Caerdydd; Canolfan Pobl Ifan Cwmbrân; YMCA Caerdydd; YMCA Abertawe; Llamau; GISDA; Canolfan Ieuenctid Abertyleri; Grŵp Dyfodol Cadarnhaol - Gweithdy Diwydiannol Llanhiledd; Prosiect Ieuenctid Canol Dinas Grassroots; Prosiect Ieuenctid Fernhill; Prosiect Cynhwysiant Disgyblion; Canolfan Ieuenctid Gabalfa; Mentoriaid Ieuenctid Caerdydd (ymyrraeth ac atal cyn-16); Full Circle Education CIC; Clylbiau Ffermwyr Ifanc Cymru; Prosiect Viva!; Urdd Gobaith Cymru; celfyddydau gwledig Cymru; Canolfan Ieuenctid 'The Attic'; Tîm Hyfforddiant Gwaith Ieuenctid, Prifysgol De Cymru; gwaith gwasanaeth ieuenctid yng Ngholeg AB Sir Benfro; gwaith gwasanaeth ieuenctid yn Ysgol Syr Thomas Picton; gwaith gwasanaeth ieuenctid yn Ysgol Maesydderwen; ABFABB - Dyfodol Disgleiriach yn Llwyr, o Fudd i Ben-y-bont ar Ogwr [A Brighter Future Altogether, Benefiting Bridgend] sy'n gweithio gyda phobl ifanc LGBTQ; Cymru Ddiogelach, a'u gwaith gyda dioddefwyr trais domestig, treisio, cam-drin rhywiol, camfanteisio rhywiol a throsedd casineb

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **Addysg ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol** | Mae’r termau, a ddefnyddir yn eang mewn polisi ac arfer gwaith ieuenctid, yn deillio o symudiadau yn UNESCO tuag at ddysgu gydol oes ar ddiwedd y 1960au a dechrau’r 1970au.<br><br>**Addysg ffurfiol:** y ‘system addysg’ â strwythur hierarchaidd wedi’i graddio’n gronolegol, sy’n rhedeg o’r ysgol gynradd i’r brifysgol ac yn cynnwys, yn ychwanegol at astudiaethau academaidd cyffredinol, amrywiaeth o raglenni a sefydliadau arbenigol ar gyfer hyfforddiant technegol a phroffesiynol amser llawn.<br><br>**Addysg anffurfiol:** proses gydol oes wirioneddol lle mae pob unigolyn yn caffael agweddau, gwerthoedd, medrau a gwybodaeth o brofiad dyddiol a’r dylanwadau a’r adnoddau addysgol yn ei amgylchedd ei hun – o deulu a chymdogion, o waith a chwarae, o’r farchnad, y llyfrgell a’r cyfryngau torfol.<br><br>**Addysg heb fod yn ffurfiol**: unrhyw weithgarwch addysgol wedi’i drefnu y tu allan i’r system ffurfiol sefydledig – p’un a yw’n gweithredu ar wahân neu fel nodwedd bwysig o ryw weithgarwch ehangach – a fwriedir i wasanaethu cwsmeriaid dysgu ac amcanion dysgu adnabyddadwy.<br><br>Mae’r gwahaniaeth a wneir yn ymwneud yn bennaf â lleoliad, a’i effaith ar addysgeg a deilliannau.<br><br>Mae addysg ffurfiol wedi’i chysylltu ag ysgolion a sefydliadau hyfforddi; mae addysg heb fod yn ffurfiol wedi’i chysylltu â grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill; ac mae addysg anffurfiol yn cwmpasu’r hyn sy’n weddill, e.e. rhyngweithiadau â ffrindiau, teulu a chydweithwyr.<br><br>Nid yw’r diffiniadau hyn yn ymhlygu categorïau digyfnewid, gan y bydd rhywfaint o orgyffwrdd (a dryswch) rhwng yr anffurfiol a heb fod yn ffurfiol. |
| **Asiantaeth Ieuenctid Cymru** | Yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, roedd yr asiantaeth yn cefnogi’r sector gwirfoddol a’r sector a gynhelir o’r gwasanaeth ieuenctid i ddatblygu a gwella ansawdd arferion gwaith ieuenctid yng Nghymru. Fe’i hymgorfforwyd yn Llywodraeth Cymru yn 2006. |
| **Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol** | Sefydlwyd yr asiantaeth ym 1964, ac mae’n cefnogi ac yn hyrwyddo gwaith ieuenctid yn Lloegr. |

| | |
|---|---|
| **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** | Diben **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal drwy gryfhau cydweithio ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. |
| **CCUHP a hawliau plant** | Ym 1991, mabwysiadodd Llywodraeth y DU Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP, 1989). Mae'r CCUHP yn diffinio plentyn fel unigolyn o dan 18 oed. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn diffinio 'ieuenctid' neu 'unigolyn ifanc' fel pobl rhwng 15 a 24 oed, ond mae'n cydnabod y gallai fod diffiniadau gwahanol gan aelod-wladwriaethau. |
| **Cerdyn-C** | Cynllun wedi'i gymeradwyo gan Iechyd Cyhoeddus Cymru lle gall pobl ifanc o dan 25 oed gael cyngor iechyd rhywiol cyfrinachol yn rhad ac am ddim, a chondomau yn rhad ac am ddim o'r Cynlluniau Cerdyn-Condom (Cerdyn-C) ar hyd a lled Cymru. O ganolfannau ieuenctid a sefydliadau gwirfoddol y mae'r cynlluniau hyn yn gweithredu'n bennaf. Gweler www.friskywales.org hefyd |
| **CWVYS** | Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gynrychioli a chynorthwyo sefydliadau ieuenctid gwirfoddol ar lefel genedlaethol |
| **Cymru Ifanc** | Gwefan prosiect newydd llais plant a phobl ifanc Cymru |
| **Cynllun strategol Cymraeg mewn addysg ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru** | Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn mynnu bod pob awdurdod lleol yn paratoi cynllun yn nodi sut bydd yn cyfrannu at gyflawni'r deilliannau a'r targedau a amlinellwyd yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru |
| **Darpariaeth mynediad agored** | Darpariaeth ieuenctid sy'n agored i bob unigolyn ifanc ei mynychu'n wirfoddol |
| **Gwaith ieuenctid** | Mae gwaith ieuenctid yn ffordd o weithio gyda phobl ifanc sy'n addysgol, mynegiannol, cyfranogol a grymusol.<br><br>Mae'n fethodoleg gydnabyddedig, a ategir gan y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, cymwysterau proffesiynol rheoleiddiedig, a sylfaen foesegol ddiffiniedig. Mae Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol 2016 ar gyfer Gwaith Ieuenctid yn datgan:<br><br>"*Ffocws allweddol gwaith ieuenctid yw galluogi pobl ifanc i ddatblygu mewn ffordd gyfannol, gan weithio gyda hwy i hybu eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, i'w galluogi i feithrin eu llais, dylanwad a'u lle mewn cymdeithas a chyrraedd eu potensial llawn."* |

Nodweddir gwaith ieuenctid gan nodweddion allweddol fel

- yr ymgysylltiad gwirfoddol â phobl ifanc yn y gwaith/ gwasanaeth a ddarperir
- gwaith sy'n canolbwyntio ar naill ai'r unigolyn ifanc neu grwpiau o bobl ifanc, a'u hanghenion, ac sy'n dechrau o 'fan cychwyn' yr unigolyn ifanc
- yn destun rheoleiddio o 2017 gan Gyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru

**Gwasanaethau cymorth ieuenctid**

O dan adran 123 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, gall y Cynulliad Cenedlaethol gyfarwyddo awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid, sicrhau eu bod yn cael eu darparu neu gymryd rhan yn y gwaith o'u darparu. Mae "Gwasanaethau cymorth ieuenctid" yn golygu "gwasanaethau a fydd ym marn y Cynulliad yn annog, galluogi neu'n cynorthwyo unigolion ifanc (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) –

(a) i gyfranogi'n effeithio mewn addysg a hyfforddiant,
(b) i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, neu
(c) i gyfranogi'n effeithiol a chyfrifol ym mywyd eu cymunedau".

Gall cyfarwyddiadau fynnu bod awdurdodau lleol ac eraill sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Cyfarwyddyd o'r enw Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Cymru) 2002 wedi'i roi i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae ystod eang o sefydliadau yn darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaeth awdurdod lleol, darparwyr y sector gwirfoddol lleol, a darparwyr y sector gwirfoddol / y trydydd sector yn genedlaethol.

**Gwasanaethau ieuenctid**

Yn gyffredinol, diffinnir **gwasanaethau ieuenctid** fel gwasanaethau sy'n cynorthwyo datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc trwy ddarpariaeth addysg heb fod yn ffurfiol. Awdurdodau lleol yw'r prif ddarparwr, er bod y sector gwirfoddol wedi bod yn darparu'r gwasanaethau hyn am gyfnod hwy o lawer. Mae awdurdodau lleol, yn fras, wedi darparu dau fath o wasanaeth. Gellir diffinio'r cyntaf fel gwasanaethau 'mynediad agored' (neu 'gyffredinol'), sy'n cynnwys ystod o weithgareddau hamdden, diwylliannol, chwaraeon, a gweithgareddau cyfoethogi yn seiliedig ar ganolfannau ieuenctid yn aml, ac yn cael eu darparu'n gyffredinol mewn partneriaeth â chymunedau lleol. Yr ail wasanaeth yw darpariaeth fwy targedig ar gyfer

| | |
|---|---|
| | pobl ifanc agored i niwed, gan gynnwys timau allgymorth cymdogaeth a gwaith stryd, gwasanaethau cyngor ac arweiniad ieuenctid, timau cyfiawnder ieuenctid, gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, gwasanaethau iechyd rhywiol a chymorth digartrefedd. Goruchwylir darpariaeth gwasanaeth ieuenctid awdurdod lleol gan swyddogion awdurdod lleol, ond gall y gwaith o gyflenwi gwasanaethau gael ei roi ar gontract allanol i grwpiau gwirfoddol neu gymunedol lleol, ac weithiau, o gontractwyr preifat. Cyfeirir at y ddarpariaeth awdurdod lleol hon yn aml fel 'y Gwasanaeth Ieuenctid'. |
| **Ieuenctid** | Yng Nghymru, caiff ei ddiffinio fel pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed |
| **LGBTQIA** | Lesbiaidd, hoyw, deurywiol trawsrywiol, *queer* (neu rhai nad ydynt yn siŵr eto), rhyngrywiol, anrhywiol |
| **Marc Safon** | Datblygwyd gan Lywodraeth Cymru: Set o ddangosyddion a safonau **ansawdd** y gall sefydliadau eu defnyddio i hunanasesu **ansawdd** ac effaith eu **gwaith** gyda phobl ifanc a datblygu cynlluniau ar gyfer gwella. |
| **MEIC** | Gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth dwyieithog a gwefan i bobl ifanc yng Nghymru |
| **NEET** | Heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |
| **Partneriaethau Pobl Ifanc (PPI)** | Partneriaethau Pobl Ifanc; y rhagflaenydd i PPPhI (gweler uchod) |
| **Plant yng Nghymru** | Plant yng Nghymru yw'r corff ambarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc, a'u teuluoedd yng Nghymru. |
| **PPPhI** | Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Sefydlwyd y partneriaethau hyn yn 2002 ar sail y ddeddfwriaeth yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a'r cyfarwyddiadau a'r canllawiau yn Ymestyn Hawliau 2002. Daethant i ben i bob pwrpas yn 2015 pan gawsant eu hymgorffori yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| **Promo Cymru** | Corff elusennol sy'n gweithio tuag at adeiladu newid cadarnhaol drwy sgyrsiau ystyrlon a thechnoleg ddigidol |
| **Y Sgwrs Go Iawn** | Mae'r digwyddiadau hyn, a gynhelir gan Lywodraeth Cymru, yn dod â phobl ifanc, arweinwyr busnes a rhanddeiliaid eraill at ei gilydd i drafod materion penodol. |
| **Y Trydydd Sector** | Y rhan o economi neu gymdeithas sy'n cynnwys sefydliadau neu gymdeithasau anllywodraethol nad ydynt yn gwneud elw, gan gynnwys elusennau, grwpiau gwirfoddol a chymunedol, a mentrau cydweithredol |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron bob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | o dan 40% |
| ychydig = | o dan 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Elusen Tai Llamau: https://www.llamau.org.uk

Cymru Ddiogelach, Prosiect Streetwise: www.saferwales.com

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000) *Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer partneriaeth.* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://dera.ioe.ac.uk/10502/1/q262a360_english1.pdf%3Flang%3Den [Defnyddiwyd 18 Ebrill 2018]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2004) *Llwybrau Dysgu 14-19 Canllawiau*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/nafwc3704-w.pdf [Defnyddiwyd 1 Mehefin 2018]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2005) *Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005*. Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/3200/contents/made/welsh [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2011a) *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.* Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/pdfs/mwa_20110001_we.pdf [Defnyddiwyd 1 Mehefin 2018]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2011b) *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.* Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/pdfs/mwa_20110002_we.pdf [Defnyddiwyd 1 Mehefin 2018]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.* Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2016) *Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Pa fath o wasanaeth ieuenctid y mae Cymru ei eisiau? Adroddiad yr ymchwiliad i Waith Ieuenctid.* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10870/cr-ld10870-w.pdf [Defnyddiwyd 18 Ebrill 2018]

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Estyn (2016) *Cyfranogiad disgyblion: canllaw arfer orau.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Pupil%20participation%20cy_0.pdf [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Grassroots/Prosiect Ieuenctid Canol y Ddinas: https://www.grassrootscardiff.com

Llywodraeth Cymru (2010) *Y Prosiect Cyfranogiad Disgyblion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/rights/ParticipationforChildrenandYoungPeople/background/?skip=1&lang=cy [Defnyddiwyd 18 Mai 2018]

Llywodraeth Cymru (2013a) *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid: Cynllun gweithredu.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/131007-ye-framework-implementation-plan-cy.pdf [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2013b) *Datganiad polisi ar addysg uwch.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/corporate_documents/Policy%20statement%20on%20higher%20education%20Cymraeg.pdf [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2014a) *Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014–2018: Helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial a byw bywydau bodlon.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/strategaeth-gwaith-ieuenctid-cenedlaethol-cymru-2014%E2%80%932018_2.pdf [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2014b) *Cynllun Hawliau Plant 2014*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/GEN-LD9732%20-%20Children%27s%20Rights%20Scheme%202014-22042014-255569/gen-ld9732-e-Cymraeg.pdf [Defnyddiwyd 1 June 2018]

Llywodraeth Cymru (2015a) *Rhaglen Plant a Phobl Ifanc.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/151106-core-aims-comprehensive-version-cy.pdf [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2015b) *Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Cyflwyniad ac arweiniad.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/dcells/publications/150916-quality-mark-introduction-and-guidance-cy.pdf [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2015c) *Strategaeth Tlodi Plant Cymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150327-child-poverty-strategy-walesv2-cy.pdf [Accessed 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2015d) *Amcanestyniadau poblogaeth yn ôl blwyddyn a rhyw.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/National/2014-Based/populationprojections-by-year-gender [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2016) *Gwaith Ieuenctid.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/youth-work/?skip=1&lang=cy [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2017a) *Cymunedau yn Gyntaf.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitiesfirst/?skip=1&lang=cy [Defnyddiwyd 18 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2017b) *Teuluoedd yn Gyntaf.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/families-first/?skip=1&lang=cy [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2017c) *Rhaglen Cefnogi Pobl.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/supporting-people/?skip=1&lang=cy [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2017d) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl 2017-2021.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/dcells/publications/170926-education-in-wales-cy.pdf [Defnyddiwyd 1 Mehefin 2018]

Llywodraeth Cymru (2017e) *Disgyblion yn ôl ysgol a grŵp oed, 2017.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Pupils/pupils-by-school-agegroup [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2017f) *Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-gender-age [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2017g) *Gwaith Ieuenctid.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/statistics-and-research/youth-services/?skip=1&lang=cy [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2017h) *Disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ôl sector a blwyddyn.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs/pupilssen-by-sector-year [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2017i) *Y gallu i siarad Cymraeg, asesiad rhieni, gan ddisgyblion o oed 5 neu drosodd mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a chategori.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/abilityspeakwelshpupils5andover-by-localauthorityregion-category [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2018a) *Amcangyfrifon o'r boblogaeth ar lefel genedlaethol yn ôl blwyddyn, rhyw a gwlad yn y DU.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/nationallevelpopulationestimates-by-year-gender-ukcountry [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2018b) *Dysgwyr unigryw sydd wedi'u cofrestru mewn sefydliadau addysg bellach yn ôl grŵp oedran, dull dysgu a rhyw.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/uniquelearnersenrolledfurthereducationinstitutions-by-age-modeoflearning-gender [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2018c) *Dysgwyr unigryw mewn darpariaeth dysgu seiliedig ar waith yn ôl grŵp oedran, rhyw a'r math o raglen.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Work-Based-Learning/uniquelearnersworkbasedlearning-by-age-gender-programmetype [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2018d) *Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/statistics-and-research/young-people-not-education-employment-training/?skip=1&lang=cy [Defnyddiwyd 4 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2018e) *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru – Symud Ymlaen Gyda'n Gilydd.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2018/YouthWorkinWalesMovingForwardTogether/?skip=1&lang=cy [Defnyddiwyd 17 Mai 2018]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) *Ymestyn hawliau: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru – Cyfarwyddyd a Chanllawiau.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/dcells/publications/160108-extending-entitlement-cy.pdf [Defnyddiwyd 3 Ebrill 2018]

National Youth Agency (1992) *Planning and evaluation in a time of change: the report of the Third Ministerial Conference for the youth service*. Caerlŷr: NYA.

National Youth Agency *What is Youth Work?* [Ar-lein]. Ar gael o: https://nya.org.uk/careers-youth-work/what-is-youth-work/ [Defnyddiwyd 18 Mai 2018]

Partneriaeth Gwaith Ieuenctid Cymru (1990) *Datganiad y Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid i Gymru*. Penarth: Partneriaeth Gwaith Ieuenctid Cymru.

Prydain Fawr (1944) *Deddf Addysg 1944.* Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo6/7-8/31/contents/enacted [Defnyddiwyd 17 Mai 2018]

Prydain Fawr (2000) *Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.* Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/21/contents [Defnyddiwyd 3 Ebrill 2018]

Prydain Fawr, Y Swyddfa Gartref (2011) *Prevent Strategy.* Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/97976/prevent-strategy-review.pdf [Defnyddiwyd 17 Ebrill 2018]

Prydain Fawr, Yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth (1982) *Experience and Participation. Review Group on the Youth Service in England ('The Thompson Report').* Llundain: Llyfrfa EM.

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid (2012). [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.nya.org.uk/wp-content/uploads/2014/06/National-Occupation-Standards-for-Youth-Work.pdf [Defnyddiwyd 1 Mehefin 2018]

Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST): http://eyst.org.uk/

Tŷ'r Cyffredin (2011) *Third Report Services for young people* Llundain: Senedd y DU. [Ar-lein]. Ar gael o: https://publications.parliament.uk/pa/cm201012/cmselect/cmeduc/744/74402.htm [Defnyddiwyd 18 Ebrill 2018]

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2018) *Youth Justice Statistics 2016/17.* Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. [Ar-lein]. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/676072/youth_justice_statistics_2016-17.pdf [Defnyddiwyd 18 Ebrill 2018]

Y Weinyddiaeth Addysg (1960) *The Youth Service in England and Wales* ('Adroddiad Albemarle'), Llundain: Llyfrfa EM.